

Llais Ogwan



Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 483 • Rhagfyr 2017 • 50c

Dathlu a chofio'r hanes

Ym mlwyddyn ei phen blwydd yn 80 oed, mae Ysgol Pen-y-bryn yn nodi'r achlysur trwy ymgorffori'r dathlu yn ei sioe Nadolig 'Pwy yw'r Seren?', gyda chymeriadau yn hel atgofion am gyfnodau cynnar ei hanes. Yn ystod y flwyddyn, bu'r disgyblion yn gwneud gwaith ar hanes yr ysgol gan gynnwys astudio'r hen lyfrau log gyda chymorth Brenda Wyn Jones sy'n gyn-ddisgybl ac wedi ysgrifennu'n fyw iawn am yr 1930au a'r 1940au.

Agorwyd yr ysgol yn 1937 o ganlyniad i benderfyniad Adran Addysg yr hen Sir Gaernarfon i gau Ysgol y Carneddi a chodi adeilad newydd led cae islaw ym Mhen-y-bryn. Cadwyd yr enw Ysgol y Carneddi ar yr ysgol newydd am rai blynyddoedd cyn ei hail-fedyddio'n Ysgol Gynradd Pen-y-bryn. Ers tro bellach mae'r hen ysgol wedi ei dymchwel a stad dai Maes yr Athro wedi ei chodi ar y safle.

Oddi ar ei sefydlu, cyfrannodd Ysgol Penybryn yn helaeth er budd y plant, y dalgylch, a'r dyffryn yn gyffredinol, ac yn ystod ei hanes cafodd arweiniad sicr nifer o brifathrawon dawnus ac egnïol dros y blynyddoedd – penaethiaid â chanddynt ddiddordeb brwd yn eu gwaith, gofal gwirioneddol dros y disgyblion, a gweledigaeth addysgol. Y prifathrawon a fu'n gwasanaethu o'r cychwyn hyd heddiw yw E.R. Jones (1937); J. Llewelyn Roberts (1938-1944); J. Idris Gruffydd (1944-1949); John Llewelyn Roberts (1949-1960); D.E. Jones (1960-1979); Huw John Hughes (1979-1984); Arfon H. Evans (1984-1990); Orina Pritchard (1990-1996); Ioan Gruffydd (1996-2004); Ceren Lloyd (2004-).

Yn ystod y cyfnod, bu'r ysgol yn hynod o lwyddiannus mewn sawl cyfeiriad, ac yn y degawdau diweddar daeth ei phartïon canu i amlygrwydd wrth gipio gwobrau lu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, gan ddwyn clod i Ddyffryn Ogwen drwy Gymru.

Fel ysgolion eraill sy'n gwasanaethu'r fro, derbyniodd yr ysgol ganmolïaeth am gyrraedd y safonau addysgol uchaf, ac roedd yn un o'r naw ysgol trwy Wynedd gyfan a



gafodd eu cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel ysgolion gorau'r wlad.

Mae'r ysgol yn ymhyfrydu yn ei hymdrech i gynnal a chryfhau'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasu naturiol, ac mae'n gweithredu'r Siarter Iaith Gwynedd yn eiddgar a dyfal. Yn ddiweddar, daeth Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg ar y pryd, i gyfarfod â'r disgyblion a'r staff i weld y gwahanol ddulliau sydd ar waith ganddynt i hyrwyddo'r iaith a Chymreictod. Meddai Ceren Lloyd, pennaeth presennol yr ysgol, "Braint yw cael bod yn bennaeth ar Ysgol Pen-y-bryn ers 2004 ac yn ddirprwy ers 1997. Gyda chefnogaeth y staff, y disgyblion, y rhieni, y llywodraethwyr ac yn wir, gyfeillion yr ardal gyfan, rydym wedi gallu gofalu fod y disgyblion yn derbyn cefnogaeth a chyfleoedd penigamp er mwyn ffynnu a bod yn ddinasyddion gwych yn eu hardal leol.

"Yn bersonol, teimlais y croeso cynnes a'r teimlad o gyrraedd adref i fro'r chwareli pan gyrraeddais yn 1997, gan fy mod wedi fy ngeni a'm magu yn Nyffryn Nantlle.

"Wrth edrych tua'r dyfodol fy mraint bellach yw arwain Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-bryn i lwyddiannau pellach, i barhau i gynnal y traddodiadau diwylliannol yn ogystal â darparu'r addysg orau un i blant yr ardal."

Mae ein braint ym Mhenybryn
Hon yw ysgol ein hesgyn

Mae cân y cwlwm cynnar
Heddiw ynof yn gof gwar

Cyfeillion llon ar bob llaw
A'r hwyl wrth seinio'r alaw
Ieuan Wyn



Nadolig 2017

Gŵyl o gan, gŵyl y Geni, gŵyl y plwyf,
Gŵyl y plant a'u hasbri;
Gŵyl o hedd, gŵyl o weddi,
Gŵyl ein Iôr i'n galw ni.
Dilwyn Owen

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

- Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Orina Pritchard.

Y golygyddion ym mis Ionawr fydd
Walter a Menai Williams, 14 Erw Las,
Bethesda, LL57 3NN. (01248 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 3 Ionawr
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 18 Ionawr**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y Lolfa

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon
Palas Print

Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas
Garej Beran

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore **dydd Iau** rhwng 10.00 o'r
gloch a hanner dydd

Dyddiadur y Dyffryn

Rhagfyr

- 15 Cyngerdd Nadolig gan y grŵp
Oriana. Eglwys St Cedol, Pentir am
7.30 yh.

17 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol.
Capel Jerusalem am 7.00

17 Marchnad Nadolig Lôn Las,
Moelyci. 12.00yp - 8.00yh.

17 Naw Llith a Charol. Eglwys Sant
Tegai/Neuadd Talgai am 5.00.

22 GIG er budd Catalwnia. Neuadd
Ogwen.

24 Gwasanaeth Noswyl y Nadolig yn
Eglwys SantTegai/Neuadd Talgai
am 11.15 yh.

27 GIG Band Pres Llareggub.
Neuadd Ogwen.

31 Parti Nos Calan. Neuadd Ogwen.

Ionawr

- 08 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.
Festri Jerusalem am 7.00.

13 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 - 1.00.

18 Plygu Llais Ogwan. Canolfan
Cefnfaes am 6.45.

19/20 "Digon o Sioe". Panto Cwmni
Drama Llechen Las. Neuadd
Ogwen.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru



Rhoddion i'r Llais

- £40.00 Mrs EV Amos, Glanogwen
- £30.00 Di-enw, Y Fali
- £30.00 Er cof am Rhiannon Rowlands, Llwydiarth, Tal y Cae, Tregarth oddiwrth Arthur Rowlands a theulu Rhiannon
- £10.0 Mrs Donna Coleby, Preston
- £10.00 Elwyn a Bet Jones, Bontnewydd
- £10.00 Mr Emyr Wyn Williams, Porthaethwy
- £10.00 Mrs Mair Pritchard, Llandudno
- £6.00 Mr Huw Brown, Y Swistir
- £5.00 Di-enw, Bangor
- £5.00 Er cof am fam annwyl iawn – Magi Jones, 2 Penrhyn Terrace, ar ddydd ei phenblwydd, 1 Rhagfyr, pan fyddai wedi bod yn 100 oed. “Tair blynedd a aeth heibio heb glywed sŵn ei throed, ond aros mae’r atgofion mor felys ag erioed.” Cariad am byth – Menai, Margaret, Elwyn a’u teuluoedd.
- £10.00 Er cof am Raymond Williams (Rhes Douglas gynt) a fu farw ar 24 Rhagfyr, oddi wrth Barbara a’r teulu.
- £10.00 Er cof annwyl am Gwyn ar ei benblwydd ar 8 Rhagfyr, oddi wrth Angela a’r plant, mam a dad, Paul, Sioned a’r teulu.
- £20.00 Er cof annwyl am Tom Morgan, a fu farw ar 6 Ionawr 2015, oddi wrth Vera, Gwyn, Dylan a Nerys.
- £10.00 Er cof annwyl am Raymond Tugwell oddi wrth Ann a’r teulu.
- £5.00 Er cof am fy mab, Robert Werner Pritchard, a fu farw ar 27 Rhagfyr yn 32 oed. Hefyd, fy mrawd Trefor Vaughan Pritchard, a fu farw ar 16 Rhagfyr 1965 yn 23 oed. Oddi wrth David Pritchard, Rhes Elefed, Bethesda. “Dyma ddydd sy’n dwyn atgofion am un annwyl iawn i ni; dal mae hiraeth yn ein calon, colled fawr oedd eich colli chi.”
- £20.00 Er cof annwyl am Dylan Rowlands oddi wrth Mam, Dad, a’r teulu.
- £20.00 Er cof annwyl am Brenda Owen, Ffordd Ffrydlas, oddi wrth Selwyn, Alwena, Nerys a Medwyn.
- £10.50 Mrs Eurwen Griffiths, 5 Rhes Mostyn, Bethesda

Diolch yn fawr.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Rhagfyr

- £30.00 (108) Helen Ll. Roberts, Rhos y Nant, Bethesda.
 - £20.00 (119) Helen Wyn Williams, Llwyn Bleddyn, Rachub.
 - £10.00 (76) Steffan Roberts, Pen y Ceunant, Llanberis.
 - £5.00 (1) Angharad Hughes, 14 Ffordd Pant, Bethesda.
- (Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)

Annwyl Olygydd,

Fe ysgrifennais at ddarllenwyr y Llais yn rhifyn mis Tachwedd yn holi am ddeunydd ar faes canu corawl capeli ardal Bethesda. Hoffwn ddiolch yn fawr i’r darllenwyr sydd eisoes wedi cyfrannu.

Dyma fi ar ofyn y darllenwyr unwaith eto, gyda dau fater o dan sylw y tro hwn. Yn gyntaf, cofnodion capeli’r ardal. A wyddai unrhyw un o’r darllenwyr ym mhle caiff cofnodion capeli Carneddi, Jerusalem, Bethesda a Bethania eu cadw? Fe wyddom fod rhai o’r capeli hyn wedi cau ers cyfnod maith bellach, ond byddai darganfod y cofnodion o werth mawr iawn i mi.

Yn ail, rydw i’n awyddus i gael gafael ar ddeunydd cerddorol, fel sgorau (scores) a fyddai wedi cael eu defnyddio gan gorau’r capeli yn y gorffennol. Fe wyddom i rai o’r copïau hyn fod ym meddiant John Davies (Eos Ogwen) yn ystod y ganrif dwytha’. Tybed a oes unrhyw ddarllenwyr y Llais yn gwybod ymhle fyddai’r copïau hyn erbyn heddiw, neu trwy lwc, yn perthyn i John Davies (Eos Ogwen)? Diolch yn fawr iawn.

Nadolig Llawen!

Caleb Rhys Jones
1 Rallt Isaf, Gerlan, Bethesda, LL57 3TD
07810316917
caleb.rhys.jones@gmail.com

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

**M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031**

**Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

L. Sturrs a’i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda**

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
logsi coed

01248 605207

TEMPLE MORRIS A’I FFA

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Ysgol Bodfeurig

Cystadlu Brwd

Bu nifer helaeth o blant yr ysgol yn cystadlu yn ddiweddar yn gala nofio yr Urdd ac yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu ac yn gweithio'n galed tuag at y cystadlaethau. Llongyfarchiadau hefyd i'r criw fu'n cystadlu yn y celf a chrefft - daethom adref gyda llond trol o wobrau. Mae pawb yn yr ysgol yn falch iawn o bob un ohonoch!

Celtiaid Gwyllt

Diolch yn fawr i ddosbarth Tryfan am eu gwasanaeth dosbarth y mis yma. Cafodd plant eraill yr ysgol a'r rhieni wledd yn dysgu am eu gwaith y tymor yma am y Celtiaid. Da iawn chi blant.

Cerddorfa

Cafodd plant dosbarth Tryfan wledd yn ddiweddar pan gawson nhw fynd i Venue Cymru yn Llandudno i wrando ar berfformiad gan Cerddorfa Genedlaethol Cymreig y BBC. Aethom ar y daith gyda'n ffrindiau o Ysgol Tregarth a cafodd pawb amser gwych yn dysgu am offerynnau y gerddorfa ac am gadw curiad cyn cael cyfle i gymryd rhan wrth ddefnyddio offerynnau roeddent wedi eu creu ei hunain. Profiad gwerth chweil!

Taith yr Iaith

Diolch i gwmni Mewn Cymeriad am ddod i'r ysgol i'n dysgu am daith yr iaith

Gymraeg. Roedd y plant wedi dysgu llawer wrth ddilyn taith yr iaith o oes y Celtiaid hyd at heddiw a'r ymgyrch i gael miliwn o bobol i siarad Cymraeg. Ysbrydoliaeth wir a phob un yn gaddo ceisio helpu i gyrraedd y miliwn erbyn 2050!

Newyddion Cyngor Ysgol

Croeso nôl i newyddion cyngor ysgol Bodfeurig. Mae'r mis yma wedi bod yn brysur iawn i ni gyda llawer o weithgareddau wedi eu trefnu. Yn gyntaf fe gasglom fwyd ar gyfer banc bwyd y Gadeirlan ym Mangor. Daeth llawer o blant a cyfraniadau ac roedd gwirfoddolwyr y banc bwyd yn ddiolchgar iawn.

Ein ail ymgyrch y mis yma oedd i gasglu bocsys esgidiau ar gyfer ymgyrch Teams4U. Llwyddom i gasglu 36 o focsys esgidiau yn llawn o anrhegion ar gyfer blant mewn gwledydd eraill sy'n llai ffodus na ni.

Yn ogystal a hyn cawsom ddiwrnod gwisgo'n lliwgar ar gyfer apêl Plant Mewn Angen. Roeddem ni'n cyngor ysgol yn brysur iawn yn gwerthu cacenau i godi mwy o arian.

Hoffai'r cyngor ysgol ddiolch i bawb am eu cyfraniadau at yr achosion arbennig yma. Diolch!

Cofiwch gadw llygaid ar Twitter yr ysgol @ysgolbodfeurig am fwy o wybodaeth am weithgareddau'r cyngor ysgol a mwy!

Dyma ni gyda staff Teams4U a rhai o'r bocsys.



Helpwch ni Sicrhau Dyfodol Blas Lôn Las

Marchnad Nadolig Lôn Las

Ffarm Moelyci, Tregarth
Dydd Sul: 17 Rhagfyr 12 - 8yh

Stondianu, Lluniaeth,
Mins Peis a Gwin Sbeis Cynnes, Cynyrch Nadolig,
Cerddoriaeth Byw, Tombola,
Cynnyrch a Chrefftau Lleol,
Cawl Poeth a Tatws Pôb Blasus, **Cacennau**, Addurniadau a Writhod Ffres.

MYNEDIAD AM DDIM!
Bydd yr holl arian a godir yn helpu sicrhau ein dyfodol.

Dewch i Weld Mulod Snowdonia Donkeys

Blas Moelyci
Lôn Las
Bwyd da wedi dyfu'n lleol
Good food grown locally

Ffarm Moelyci, Lôn Felin Hen
Tregarth, LL57 4BB

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig
Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW
☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Yr Eglwys Unedig

Mae plant yr ysgol Sul wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer eu gwasanaeth nadolig a berfformiwyd dydd Sul 10fed o Ragfyr . Hyderir eu bod wedi mwynhau ymwelaid gan Sion Corn.

Mae nifer dda yn aros i fwynhau paned ar ol oedfa'r bore ac felly ar fore Iau pryd bydd y dynion yn brysur yn creu a gwneud gwahanol wiethgareddau.Mae'r Clwb Celf hefyd yn brysur iawn y dyddiau hyn.

Bydd cyfarfod y Gymdeithas yn cael ei gynnal nos Iau14eg o Ragfyr pryd y bydd yr aelodau yn cael eu diddanu gan Annette a Gwyn Bryn Parry.

Prosiect 'Corwynt Cariad ' oedd testun sgwrs Anna Jane Evans ar gyfer yr aelodau yn son am sut mae trigolion yr ynysoedd yn ymdopi ar ol y dinistr diweddaraf. Codwyd swm o £300 yn y bore coffi ar Ragfyr 2il a throsglwyddir yr elw i gronfa 'Corwynt Cariad' Diolch i bawb am eu cymorth ac i drigolion yr ardal am eu cefnogaeth arferol.

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Lee a Michelle Williams, 21 Bryn Tirion, ar enedigaeth eu hail blentyn, Mason Lee, oedd yn pwysu 10pwys 7owns. Brawd newydd i Kieran Lee. Yn anffodus bu raid i Mason aros am gyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd, ond da deall ei fod

gartref erbyn hyn ac yn gwella.

Llongyfarchiadau i nain Gwel y Nant, Dawn Taylor, a hen nain Maes y Garnedd, Mrs. Mair Taylor.

Llongyfarchiadau hefyd i Bethan a Richard, Ty'n Llan, Pant Glas, ar enedigaeth mab yn ddiweddar, sef Iori Clwyd, brawd bach i Deio Madog.

Ysbyty

Eto, bu sawl un yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac 'rydym yn anfon ein cofion atynt gan ddymuno gwellhad buan:- Cai Griffiths, Llain y Pebyll; Mr. Owie Williams, Maes y Garnedd; Mr. Derek Griffiths, Rhos y Coed; Mrs. Buddug Hughes, Carneddi.

Penblwyddi Arbennig

Penblwydd hapus iawn i Mrs. Arfona Edwards, Maes y Garnedd, ar achlysur dathlu penblwydd arbennig ar 23 Rhagfyr.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr. Selwyn Owen a'r teulu, Ffordd Ffrydlas, yn eu profedigaeth o golli Mrs. Sheila Williams, Capel Curig, chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl.

Marw

Ar 31 Hydref, yn sydyn yn ei gartref, bu farw Matthew Owen Jones yn 38 oed. 'Roedd yn fab i'r diweddar Robert a Rhian Jones, Maes Coetmor, yn frawd i Donna a brawd yng nghyfraith i Chris, yn ewythr hoffus, ac yn wŷr i Mrs. Arfona Edwards, Maes y Garnedd. Bu ei angladd ddydd Mawrth, 14 Tachwedd yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad Rosie Waite. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

Gorffwysfan

Cafwyd bore coffi llwyddiannus ar Sadwrn, 11Tachwedd, gydag elw o £247.00. Diolch i'r aelodau a chyfeillion am y nwyddau, y raffl, ac am helpu ar y bore.

Ar fore sych ac oer aeth criw o 48 ar wibdaith i Warrington. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwyndau yn fawr iawn.

Llyfrgell Bethesda

Oriau agor a cau dros y Nadolig

Mae'r Llyfrgell ar gau am 12.30pm ar 23/12/17 tan 10am 02/01/18.

Mae Llyfrgell Bangor ar agor ar Dydd Iau,28/12/17 a Dydd Gwener,29/12/17 yn ychwanegol.

Gwasanaethau Eglwys Crist Glanogwen

Rhagfyr 10 ac 17 – Cymun Bendigaidd am 11.y bore

Bore Mercher, Rhagfyr 6, 13. 20 – Cymun Bendigaig a phaned -10.30 y bore

Noswyl Nadolig: 11 y bore – Gwasanaeth 9 Llith a Charol 4 y prynhawn – Wrth y Preseb – gwasanaeth i blant o bob oed – Croeso Cynnes i bawb

9 yr hwyr – Cymun Cyntaf yr Wyl Bore Sul, 31 Rhagfyr – Gwasanaeth Undebol yn Eglwys St Mair, Tregarth

Hel Atgofion ar Gân gyda thrigolion o ardal Bethesda

Ers mis Tachwedd 2016, mae Canolfan Gerdd William Mathias wedi bod yn cynnal sesiynau cerddorol gyda thrigolion hŷn Gellilydan ac Awel y Coleg, Y Bala dan arweiniad y cerddor Nia Davies Williams. Gwahoddwyd plant o'r ysgolion cynradd lleol i gymryd rhan mewn sesiynau Camau Cerdd gyda Marie-Claire Howorth cyn ymuno i gyd-ganu a mwynhau gweithgareddau cerddorol gyda'r bobl hŷn.

Ers y comisiwn gan Uned Celfyddydol Cymunedol Cyngor Gwynedd mae'r sesiynau wedi helpu dod a phobl at ei gilydd i hel atgofion a mwynhau cerddoriaeth, yn ogystal â chodi hyder a chynnig cyfle i gyfarfod pobl newydd.

Gyda phleser, mae'r prosiect wedi ehangu i ardaloedd Bethesda a Deiniolen ers ddiwedd mis Hydref gyda nifer

o aelodau newydd o'r gymuned yn mwynhau yng nghwmni Nia Davies Williams; sydd yn ddiweddar wedi ennill gwobr Ymddiriedolaeth Bryn Terfel am Hyrwyddo'r Celfyddydau Mewn Gofal. Mae'r sesiynau'n agored i unrhyw drigolion hŷn ddod draw am baned a chân ac i gwrdd â phobl newydd.

Cynhelir sesiynau Bethesda rhwng 10:30 – 11:30yb yn Neuadd Ogwen bob yn ail dydd Gwener. Dyddiadau'r sesiynau yn y flwyddyn newydd fydd:

Ionawr 12, 26. Chwefror 9, 23. Mawrth 9, 23.

Bydd plant ifanc o'r ysgol leol yn ymuno fis Mawrth 2018.


Am unrhyw wybodaeth pellach, cysylltwch â Canolfan Gerdd William Mathias ar 01286685230 / post@cgwm.org.uk

Cyfarchion Nadolig

Dymuna

Gwilym a Barbara Owen
Rhos y Nant, Bethesda,

Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gymdogion a chyfeillion. Byddant yn rhoi cyfraniad i elusen lleol yn hytrach nag anfon cardiau Nadolig o hyn allan.



Ni fydd

Mrs Arfona Edwards
Maes y Garnedd

yn anfon cardiau eleni. Mae'n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'w holl ffrindiau a chymdogion.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



2018
14 Chwefror - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
03 Mawrth - Cefnfaes - Plaid Cymru.
24 Mawrth - Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.
14 Ebrill - Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
21 Ebrill - Cefnfaes - Cymdeithas Capel Jerusalem.
28 Ebrill - Cefnfaes - Cyfeillion Ysbyty Gwynedd
12 Mai - Cefnfaes - Cymorth Cristnogol.
12 Mai - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
19 Mai - Cefnfaes ddim ar gael.
30 Mehefin - Neuadd Ogwen - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
14 Gorffennaf - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
08 Medi - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
29 Medi - Cefnfaes - Plaid Cymru.
27 Hydref - Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
24 Tachwedd - Caffi Coed y Brenin - NSPCC

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Ionawr 13eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Chwefror 10fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Mawrth 10fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST

RHAGFYR 19
IONAWR 9, 23, 30
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun, 8 Ionawr
am 7.00 yh

yn Festri Capel Jerusalem
Nerys Mari Jones
Prosiect Penrhyn
£1.50 wrth y drws neu
am ddim i aelodau

Gwasanaeth Noswyl y Nadolig

Eglwys Sant Tegai
a Neuadd Talgai, Llandygai
Nos Sul, 24 Rhagfyr
am 11.15 yh
Croeso cynnes i bawb

GWASANAETH NADOLIG CYMUNEDOL

ynghyd Nghapel Jerusalem
Nos Sul, Rhagfyr 17
am 7.00. p.m.

Dewch i ddatlu'r Wyl yng nghwmni

Côr Meibion y Penrhyn,
Côr y Dyffryn,
Côr Ysgol Dyffryn Ogwen
ynghyd ag unigolion.

Mynediad am ddim. Gwneir casgliad tuag at achos da. Croeso cynnes i bawb

Naw Llith a Charol

Eglwys Sant Tegai
a Neuadd Talgai, Llandygai
Dydd Sul, 17 Rhagfyr
am 5.00 yp.
Croeso cynnes i bawb

Cyngerdd Nadolig

gan y grŵp ORIANA

(Arweinydd: Lorna Todd)
yn Eglwys St. Cedol, Pentir

NOS WENER, 15 RHAGFYR
AM 7.30YH

Dim Tâl Mynediad
Casgliad ar y diwedd.
Croeso cynnes i bawb!

EGLWYS ANNIBYNNOL BETHLEHEM TALYBONT

OEDFA NADOLIG

yng nghwmni plant yr Ysgol Sul
Dydd Sul, 17 Rhagfyr
am 2.00 yp

Gwneir Casgliad at Apêl
Nadolig Cymorth Cristnogol
Croeso yn y festri wedyn!

Neuadd Ogwen

22 Rhagfyr

GIG er budd Catalonia
gyda TWMFFAT, RADIO RHYDD,
LOLFA BINC, JAMIE BEVAN

27 Rhagfyr

GIG BAND PRES LLAREGGUB

Hefyd OMALOMA, FFRACAS

31 Rhagfyr

Parti Nos Calan
gyda BANDA BACANA
TURNSTONE ayyb.



Annwyl Ddarllenwyr,

Ydych chi'n nabod rhywun yn eich ardal chi sy'n haeddu cydnabyddiaeth am eu gwaith arbennig gyda phobl ifanc?

Mae Urdd Gobaith Cymru yn croesawu enwebiadau ar gyfer Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled 2018 - tlws a roddir i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru.

Os ydych chi'n adnabod unigolyn neu unigolion sydd wedi gwneud gwaith heb ei ail gyda phobl ifanc dros y blynyddoedd, anogir chi i'w henwebu. Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuenctid, cyn belled â'i fod yn waith wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc dros 11 oed, yn wirfoddol a thu allan i oriau ysgol. Rhaid i'r gwaith fod drwy gyfrwng y Gymraeg, neu gydag ieuenctid sy'n dysgu'r iaith. Gall hefyd fod gydag unrhyw fudiad ieuenctid.

Rhoddir Gwobr John a Ceridwen Hughes gan Dewi a Gerallt Hughes er cof am eu rhieni, John a Ceridwen, oedd yn weithgar iawn ym maes ieuenctid.

Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn mudiadau fel yr Urdd ac ni fyddai modd i ni gynnal na chynnig cymaint o gyfleoedd a phrofiadau i blant a phobl ifanc Cymru heb eu cefnogaeth.

Dyma gyfle felly i ddiolch ac i gydnabod gwaith unigolyn neu unigolion yn eich ardal chi sydd wedi rhoi o'u hamser er mwyn cefnogi ieuenctid Cymru, a hynny mewn unrhyw faes cyn belled â'i fod drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn croesawu enwebiadau rhwng nawr ac Ionawr felly byddwn yn argymhell i bawb fynd amdani ac enwebu'r unigolion arbennig hynny yn eich ardal chi!

Gellir cael gafael ar y Ffurflen Enwebu drwy fynd i urdd.cymru/tlws neu drwy gysylltu gydag Enfys Davies ar 01239 652 163 neu enfys@urdd.org. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener, 19 Ionawr 2018.

Yn gywir iawn,
Dai Bryer a Sian Rogers
Cyfarwyddwyr Gwaith Maes ac Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, Arwel, 169
Ffordd Penrhos, Bangor LL57 2BX
01248 351067
marred567@btinternet.com

Dim gohebydd

Ar waetha sawl apêl gen i, does 'na neb wedi cynnig bod yn ohebydd Glasinfryn, Caerhun a Waen Wen ar gyfer y Llais. Gan fy mod wedi symud o'r ardal, hwn fydd fy rhifyn ola' i fel gohebydd. Fedrwech chi, felly, o hyn ymlaen, anfon eich newyddion yn uniongyrchol at Olygydd y Mis. Mae manylion cyswllt Golygydd y Mis y Llais i'w weld ar dudalen 2 y rhifyn blaenorol. Mae'n biti mawr nad oes neb wedi gwirfoddoli. Os ydych chi'n adnabod rhywun a fyddai'n gallu gwneud y gwaith, gofynnwch iddyn nhw! Tydi'r gwaith ddim yn feichus. Y cwbl sydd ei angen arnoch ydi cyfrifiadur!

Gwybodaeth am yr ardal

Mae tafflen hynod o ddiddorol wedi cael ei chyhoeddi gan Gyngor Pentir a Menter Fachwen fel rhan o'r cynllun Cerdded a Darganfod. Mae'n cynnwys map, a gwybodaeth a straeon am ardal Pentir. Gareth Roberts sydd wedi llunio'r daflen ac yn ddiweddar daeth draw i Lasinfryn i rannu gwybodaeth am y llwybrau cerdded sydd yn yr ardal ac i adrodd rhai o'r hanesion y mae wedi dod ar eu traws. Yn y prynhawn, arweiniodd Gareth daith gerdded o amgylch y fro ac yna, gyda'r nos, daeth pawb ynghyd yn y Ganolfan yng Nglasinfryn i wrando ar sgwrs gan Gareth ac i weld yr arddangosfa yr oedd yntau wedi ei gosod i fyny yno. Roedd y Ganolfan dan ei sang a phawb yn amlwg wedi mwynhau clywed mwy am yr ardal a rhannu straeon ac atgofion. Difyr oedd clywed am helyntion clwb pêl-droed y Glasinfryn Swifts ac am y porthmyn arferai alw heibio un o dafarndai'r pentref (ac mi roedd 'na nifer fawr o dafarndai yn y pentref!) Syndod, hefyd, oedd clywed fod y ffordd Rufeinig a gysylltai Segontiwm (Caernarfon) â Deva (Caer), yn mynd trwy ganol stad Bro Infryn! Roedd yn braf, hefyd, cael cyfle ar ddiwedd y noson i fwynhau paned a sgwrs. Diolch i Gareth a'r tîm am eu gwaith yn cynhyrchu'r daflen.

Cylch Glasinfryn

Swynwyd pawb gyda lluniau hudolus ein gwestai, Piernio Algieri, y ffotograffydd o Lanrwst, yng nghyfarfod Tachwedd o'r

Cylch. Nid pob amser y mae'r camera yn gallu dal beth mae'r llygaid yn ei weld, ond mae Piernio yn feistr ar ei grefft. Dywedodd nad yw bywyd ffotograffydd bob amser yn hawdd, gan iddo godi yng nghanol nos weithiau i ddringo rhyw fynydd neu gilydd i dynnu llun y wawr yn torri! Un llun trawiadol iawn oedd yn dangos yr ymrwymiad yma oedd llun oedd ganddo o'r wawr yn torri o ben Tryfan. Roedd yn braf iawn cael croesawu ei wraig, Delyth, atom hefyd. Hi oedd yn gofalu am y bwrdd o gynnyrch gwych Piernio oedd ar werth ar ddiwedd y noson. Diolchwyd i Piernio gan Joeelyn am y cyfle i gael mwynhau noson o ymlacio yng ngodidowgrwydd Eryri yn ei gwmni.

Braf iawn oedd cael Glenys yn ein plith, (gyda'i phlastar!) wedi iddi syrthio a thorri ei garddwn yn ei chartref. Newyddion braf oedd deall fod Margaret yn gwella wedi ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysia yn ôl Margaret i ail gydio yn adroddiadau Llais Ogwan! Rydym yn ddiolchgar iawn ac yn gwerthfawrogi dy gyfraniad i'r Cylch.

Parti Nadolig fydd ein cyfarfod yn mis Rhagfyr, yn y Garddfon, Y Felinheli. Awn am y Storiell ym Mangor ar bnawn Mercher 9 Ionawr am 2.00yp, i gael gweld beth sydd ar gael yno a chael dipyn o hanes bro Glasinfryn, gyda phaned a chacen i ddilyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mair ar Bangor 352966. Beth am ymuno â ni yn y flwyddyn newydd? Mi gewch chi groeso cynnes!

Bingo Nadolig

Cofiwch am y Bingo Nadolig, gyda lluniaeth, yn y Ganolfan ar 15 Rhagfyr am 7.00yh. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at Gardd Synhwyrus newydd yn Ysbyty Gwynedd i gleifion sydd â Dementia.

Yn yr Ysbyty

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Allan Jones, Bwthyn y Waen, Waen Wen, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae Allan wedi prynu dau galendar Llais Ogwan i anfon i'w feibion sef Jonathan, sydd yn byw yn Perth, Awstralia ac i Martin sydd yn byw yn Bermuda! Ysgwn i pa mor bell mae Calendrau Llais Ogwan yn cyrraedd dros y Byd?

Calendrau'r Llais

Os oes rhywun am brynu Calendr Llais Ogwan ar gyfer 2018, mae cyflenwad ar gael gan Mair Griffiths, Pen y Bryn, Waen Wen. Ffoniwch 01248 352966 er mwyn sicrhau eich copi. Mi fasa'n gwneud anrheg Nadolig ardderchog!

Nyth Y Gân

COFIO
Pellhau mae'r dyddiau diddan a gawsom
Mor gyson ddi-ffwdan
Yn y côr drwy ganu cân
A hafau'r iaith yn gyfan.

Trysor
Trysorwyr yr hen dun triog
Gan bawb mewn tyddyn gynt,
Roedd iddo werth arbennig
I'w cynnal ar eu hynt.

Bu hwn ar fwrdd y gegin
Bob amser efo'r bwyd
Yn sefyll yn urddasol
Rhwyng cadarn furiau llwyd.

Fe gâi y criw ei flasau,
Rhyw lwyaid ar y tro,
I atal peth o'r peswch
O hyd o dan ei do.

Ar ôl i'r triog orffen
Roedd gwerth i'r tun bob tro,
A'i gicio fyddai'r hogiau
Ar gaeau bach y fro.

Rhyw dynfa go arbennig
Fu rhwyng y plant a'r tun,
Ac oriau'r hwyl a greodd
Sy'n dawel erbyn hyn.

Fe greodd gyfeillgarwch
Rhwyng rhai a'i ciciai o,
A'r tolciau ar ei wyneb
A dyfai'n fwy bob tro.

Mae gan gymdeithas heddiw
Deganau hynod ddrud
Na ellir byth eu rhannu
Fel gwnâi'r hen dun o hyd.

Y DDEDFRYD
Mor isel fu'r tawelu yn y gell
Pan gadd ei ddedfrydu;
Lle mor bell am y hir y bu
Y dal heb weld ei deulu.

TRO'R TYMHORAU
Ail-ddangos mae bywyd ym mhobman,
A'r adar ar dân yn y coed,
Y blagur sy'n agor yn araf
A symud yn awr mae sawl troed.

Ymestyn bob awr y mae'r dyddiau,
Mor lliwgar edrycha bob man,
A hynod o dlws yw y blodau
Wrth dyfu a gwneuthur eu rhan.

Byrhau y mae'r dydd fesul tipyn
A hiraeth a deimlir drwy'r ardd
O weled y lliwiau yn pallu
O dyfiant y rhai fu mor hardd.

Mae'r coed wedi syrthio i gysgu
A'r ddaear yn dawel a llwyd,
Bu llawer creadur o'u cwmpas
Yn brysur yn storio eu bwyd.

Mor wych yw'r tymhorau yn newid
A rhedeg i'w gilydd fel hyn
I greu yr hen batrwm o'r newydd
Mor amlwg ble bynnag y myn.
Dafydd Morris

Marchnad Ogwen

Wel am noson – am fwy nag un
rheswm!! Ia siŵr, noson y Farchnad
Nadolig a gynhaliwyd ar un o
nosweithiau gwlypaf y degawd! Beth
oedd yn arbennig am y noson hon
medda chi? Cymuned yn dod at ei
gilydd er gwaethaf y tywydd i gefnogi
Marchnad Ogwen – dyna oedd yn
arbennig. Bu'r Boncathod yn gosod
naws Nadoligaidd hyfryd i'r noson.
Diolch genod. Diolch i Gaffi Coed y
Brenin am drefnu lobsgôws blasus
unwaith eto. Dwi ddim yn siwr os yw
Edwina Williams, Stondin 'Wyau a
Llysiau' yn mynd i anghofio'r noson
yma yn fuan. Methu mynd adref i Sir
Fôn oherwydd y llifogydd fu eu hanes hi
ac Emlyn ei gŵr a gorfod treulio'r noson
yn nhŷ ffrindiau! Er gwaethaf y tywydd,
roedd hi'n noson ardderchog. Diolch o
galon i bawb o bell ac agos.

Mae Chris Jones, Tatws Bryn wedi
rhoi'r gorau i gynnal ei stondin yn y
Farchnad. Diolch i ti am dy gefnogaeth
dros y blynyddoedd Chris – yn wir
Chris oedd un o sylfaenwyr Marchnad
Ogwen. Gweledigaeth yn sicr.

Mae rhywun lwcus wedi ennill taleb
gwerth £50 i'w gwario ym Marchnad
Ionawr a Chwefror! Mae enw'r enillydd
ar dudalen Facebook y Farchnad.

Gan ddechrau yn y flwyddyn newydd,
byddwn yn dechrau cyfres 'Llun a Stori
Stondin' gan fynd o stondin i stondin
yn y Farchnad er mwyn i chi gael cip
olwg ar yr hyn sydd i'w gynnig.

Mae 2017 wedi bod yn flwyddyn dda
dros ben i ni fel Marchnad, gyda nifer
o stondinau newydd. Mae ein diolch yn
fawr i bawb o'n cwsmeriaid, ac i staff
Neuadd Ogwen am bob cefnogaeth.

Ionawr 13eg yw dyddiad y Farchnad
gyntaf yn 2018. Eglwys y Santes Fair,
Tregarth sy'n cynnal y Stondin Elusen
a Mannon Briggs ar y Stondin 'Un Tro'
gyda 'Tropical Skincare'. Ni fyddwn yn
cynnal y Stondin 'Un Tro' eto ar hyn o
bryd gan fod y Farchnad yn llawn. Yn
sicr, byddwn yn adolygu'r sefyllfa ac yn
gadael i chwi wybod trwy ein gwefan
neu Facebook os bydd newid.

Mae gwybodaeth lawn am y farchnad
ar ein gwefan **www.marchnadogwen.co.uk**
ac ar facebook a Twitter.

Nadolig Llawn iawn a Blwyddyn
Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid a
diolch am eich cefnogaeth yn 2017.



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

**MODURDY
FFRYDLAS**



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN**

 **600723**
Ffacs: 605068

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan ☎ 601583

Trist yw cofnodi marwolaeth Sheila Ann Williams, merch y diweddar Norman a Katie Jones, Ciltrefnus gynt, ar Tachwedd 22, 2017, yn 77 mlwydd oed. Gwraig gariadus Emlyn a mam ofalus Gwynfor, Bryn a Mai a nain hoffus Katie, Gareth a Gavin. Chwaer annwyl Selwyn, Vernon, Glynys, Eifion a’r diweddar Brenda a Carol.

Cofio Sheila

Beth allwn ni ddweud? Gwraig gariadus a thyner, mam hoffus, gofalus ac addfwyn i dri o blant, nain arbennig i’w wyrion ac wyres a chwaer werthfawr. Beth arall fedrwn i ddweud, mae’r ychydig eiriau yma yn crynhoi yr hyn oedd Sheila.

Ond beth am ei bywyd? Hogan o’r Gerlan ac fe briododd yn y Capel yno gydag Emlyn a symud i fyw i Capel Curig gan ymgartrefu yn Preswylfa Glan Rafon ac yno y treuliodd y rhan helaethaf o’i hoes arwahan i gyfnod yn Gwern Gof Uchaf.

Hogan yn hoffi yr awyr agored oedd Sheila ac wedi cerdded milltiroedd lawer o gwmpas ardal Dyffryn Ogwen a Dyffryn Conwy ac hefyd llwybrau arfordir Ynys Môn. Roedd hi wrth ei bodd yn cerdded a mwynhau y golygfeydd ac yn blino dim. Byddai yn mynd a’i chamera gyda hi pob amser gan dynnu llwyth o luniau a fi fyddai yn cael y gwaith o’u lawr lwytho i’r cyfrifiadur a gwneud disc fideo ohonynt, ond gyda chyfarwyddiadau manwl o’r penawdau i fynd gyda rhai o’r lluniau. Nid lluniau teithiau cerdded oeddynt i gyd, o na, digon o luniau o’r teulu, ymweliadau, gwyliau a’r blodau y byddai yn eu tyfu o gwmpas y tŷ. Roedd tyfu blodau a garddio yn rhoi boddhad mawr iddi. Roedd hi wrth ei bodd yn teithio. Cawsom ei chwnni ar daith i Patagonia rhyw chwe blynedd yn ôl. Oedd, mi roedd Sheila wrth ei bodd gyda’i chamera ac yn gallu tynnu lluniau da iawn.

Roedd hi hefyd yn gymdeithaswraig dda iawn gan fod yn aelod o sawl cymdeithas yn ei bro ac yn ymroddgar iawn ym mhob un ac wedi gwneud llawer iawn o gyfeillion agos ac roedd hi yn meddwl y byd ohonynt i gyd.

Un o hoff hobiau Sheila oedd gwneud gwin ac yn cael hwyl a phleser arbennig o wneud hynny. Byddai wrth ei bodd yn mynychu Sioau Amaethyddol fel Sioe Dyffryn Ogwen, Sioe Eglwys Bach a Sioe Carnifal Capel Curig gan arddangos ei gwinoedd ac yn ennill ar sawl achlysur. Nid gwin yn unig cofiwech ond teisennau hefyd. Byddai ennill yn y Sioau a chael clod yn rhoi hapusrwydd a bodlonrwydd mawr iddi.

Bu Sheila ac Emlyn yn byw yn Gwern

Gof Uchaf am rai blynyddoedd, Emlyn yn ffermio defaid a Sheila yn gofalu am gwersyllwyr. Roedd hi yn cael pleser mawr hefo’r campars ac wrth ei bodd yn mynd o gwmpas y pebyll i gasglu’r arian am gael aros yno. Roedd ganddi un anifail anwes arbennig yma, sef Sian y ddafad. Roedd Sian, pan yn oen bach wedi colli ei mam, ond bu Sheila yn fam iddi ac edrych ar ei hol am flynyddoedd. Byddai Sian yn dod at y drws cefn pob bore i ddweud helo ac i chwilio am damaid o fwyd gan Sheila.

Nid nepell o Wern Go, mae Capel Bach Nant y Benglog ac roedd Sheila yn aelod selog iawn yn y Capel yma ac yn cymryd rhan yn y Gwasanaethau pan nad oedd Gweinidog ar gael i arwain Gwasanaeth. Roedd Capel Nant y Benglog yn agos iawn at ei chalon.

Braslun byr iawn ydy hwn, ond Emlyn , Gwynfor, Bryn, Mai, Katie, Gareth a Gavin, rydym ni fel brodyr a chwaer i Sheila yn cydymdeimlo yn ddwys iawn gyda chwi yn eich profedigaeth, a bydded i Sheila orffwys mewn heddi.

Selwyn

Cydymdeimlad

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i Vernon Jones, Glanrafon, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, y diweddar Sheila Williams, oedd yn trigo yng Nghapel Curig. Rydym, hefyd, yn cydymdeimlo gyda

Heledd Selwyn, a Dwynwen, Pen Clwt, Ogwenna ac Alwyn, Pen Clwt, ac Arwyn a Lowri, Ciltrefnus yn eu profedigaeth o golli modryb, y diweddar Sheila Williams. Merch o’r Gerlan oedd Sheila, ond wedi

byw yng Nghapel Curig am flynyddoedd. Rydym yn meddwl amdano i gyd yn eich profedigaeth.

Gadael yr ardal

Mae David Thomas, Rhian, a Fflur Moriarty wedi symud o’u cartref yn Stryd y Ffynnon, ac wedi mynd i Lanrug i fyw. Rydym yn dymuno’r gorau iddynt yn eu cartref newydd. Bydd yn rhyfedd peidio eu gweld o gwmpas, ond byddant yn siwr o ddod yma yn rheolaidd i weld Myfanwy a’r teulu yn Stryd y Ffynnon.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn gydag Angela Davies a’r teulu, Rallt Isaf, yn eu profedigaeth o golli modryb Angela, y diweddar Julie Rowlands, oedd yn trigo yn Rachub. Mae llai na blwyddyn ers i’r teulu gael y brofedigaeth o golli eu hewythr, y diweddar Dafydd Rowlands. Meddyliwn amdano fel teulu ar adeg trist fel hyn.

Diolch

Dymuna Jane Jones, Gwernydd, ddiolch i deulu, cymdogion, a ffrindiau i gyd am

yr holl gardiau, anrhegion, a’r cyfarchion cynnes a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Profedigaeth

Daeth newyddion trist unwaith eto i Giltrefnus pan glywsom am farwolaeth y diweddar Hugh Hughes. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf i’w weddw, Dorothy, a’r plant, a’r teulu i gyd, yn eu profedigaeth fawr.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Braf oedd gweld cymaint o blant a phobl ifanc y Gerlan yn cymryd rhan yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen ganol Tachwedd. Da iawn chi i gyd!

Cyfarchion

Ble mae blwyddyn wedi mynd, dywedwch? Gan mai dyma rifyn olaf y flwyddyn o’r Llais, dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch, a gyrrwn gyfarchion arbennig i bawb o’r pentref sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Anfon ein cofion at Ceinwen Hughes, Llys Eurgain sydd bron a cholli ei llais yn llwyr. Brysiwch wella Ceinwen. Yn yr un modd anfonwn ein cofio at bawb sydd dan unrhyw anhwylder ac yn enwedig at y rhai sydd yn gaeth i’w cartrefi. Gobeithio bod Beryl Orwig, Cilcavan yn gwella gartref erbyn hyn. Dymuniadau gorau am Nadolig Dedwydd i bawb

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Pentir

Gohebwy'r Newydd

Mae'r Llais yn falch o gyhoeddi mai Cynrig a Carys Hughes fydd yn gyfrifol am gasglu newyddion ar gyfer ardal Pentir o hyn ymlaen! Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu parodrwydd i wneud y gwaith pwysig hwn.

Byddant yn croesawu unrhyw newyddion a straeon o'r ardal. Cofiwch gysylltu â nhw yn:

Rallt Uchaf,
Pentir,
LL57 4YB.
Ffôn: 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Diolch

Dymuna'r Llais ddiolch o galon i Anwen Thomas, Rhydygroes, am ei gwaith yn gofalu am golofn Pentir dros y

blynnyddoedd diwethaf. Diolch yn fawr Anwen.

Eglwys St. Cedol, Pentir

Dathliad or Nadolig
Now Sul Rhagfyr 17 am 6yh budd noson i ddathlu gŵyl y nadolig, ceir datganiadau cerddorol ar yr organ ar clarinet gan Calypso, unawdau a deuawdau a datganiadau llafar, a Charolau cynulleidfaol. Budd lluniaeth ysgafn o mince pies a mulled wine. Dewch i gyd-ganu a ni, croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig
Prynhawn Sadwrn 25 Tachwedd cynhaliwyd ein ffair Nadolig yn y ganolfan Glasinfryn, roedd yn brynhawn hwyliog a hynod o lwyddianus. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Cartref newydd
Coreso i'r Parchedig Martin Riley a Mrs. Beryl Riley i'w

cartref newydd yn 2 Hafod Lon, Rhiwlas, dymunwn bob hapusrwydd i chwi yn ein plith.

Gwellhad
Rydym yn anfon ein cofion at Mr. Gwyn Jones ar Parch. Martin Riley, y ddau wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Rydym yn gobeithio eich bod yn gwella. Cofion cynnes.

Cyfarchion
Hoffa aelodau'r Eglwys anfon cyfarchion y tymor i'r canlynnol, Miss. Margaret Griffith, Caerhun, Mr. Bill Perry, Glyn Cottage, Nant y Garth, Mrs. Mai Williams, Cerrig yr Afon, Y Felinheli, Mr. Vick Bradley, Plas Garnedd, Pentraeth a Mrs Beryl Griffith, Plas Garnedd, Llanberis.

Cyfarchion yr Wyl
Hoffai aelodau a chyfeillion

Eglwys St. Cedol ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Dyffryn Ogwen, a hoffwn ddiolch i chwi am eich cefnogaeth drwy gydol 2017. Diolch yn fawr.

Gwasanaethau'r Sul
Mae'r Gwasanaethau bob bore Sul am 9.45yb. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni: 17.12.17 - Cymun Bendigaidd 17.12.17 - 6yh. Dathliad o'r Nadolig 24.12.17 - 9.30yh. Cymun Bendigaidd 25.12.17 - Ymuno a Tregarth, Talybont neu Glan Ogwen 31.12.17 - 9.30yb. Gwasanaeth ar y cyd - St. Mair, Tregarth 06.1.18 - Cymun Bendigaidd 13.1.18 - Boreol weddi 20.1.18 - Cymun Bendigaidd

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Clwb Rhiwen - cyfarfod Tachwedd 8

Fe aethom draw i Fron Goch i gael cinio, roedd yn ddiwrnod braf a phawb wedi'u plesio â'r bwyd. Roedd yr addurniadau Nadolig yn lliwgar ac yn wled d i'r llygaidd ac fe fu un neu ddwy yn prynu eu anrhegion Nadolig. Roedd pawb o'r farn inni gael pnawn difyr.

Cyfarfod Tachwedd 22 - Roedd y tywydd yn dra gwahanol i'r cyfarfod yma, gwynt a glaw ofnadwy ond fe fentrodd rhai ohonom i'r Neuadd. Roeddem i ddod â rhywbeth diddorol gyda ni a siarad am y gwrthych. Cawsom weld hen luniau, llyfr nodiadau nyrs yn ysbyty yn Llundain ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, llyfr Cofion Cymru a anfonwyd i filwyr yn yr ail Ryfel Byd. Cyflwynwyd y llyfr i John Williams RAF, Eglwys Peniel, Waun Pentir. Hefyd gwelsom declyn i ddal tost wedi'i lunio o bren gan Jean a photyn a brynwyd fel anrheg o Llangollen a chyrlen felen o wallt Dilys ynddo. Cafwyd pnawn diddorol a Jean a Iona oedd yn gyfrifol am y baned a Dilys enillodd y raffl.

Hen Luniau - Cofiwch am yr arddangosfa yn y Neuadd, y lluniau i ddod i law erbyn **Dydd Sadwrn, Ionawr 20fed rhwng 11 y bore a 3 y pnawn ar arddangosfa Dydd Sadwrn, Mawrth 3ydd, rhwng 10 y bore a 3 y pnawn.**

Merched y Wawr

Cawsom ein cinio Nadolig fis ynghynt eleni gan ein bod wedi trefnu noson gyda Seindorf Deiniolen ym Mis Rhagfyr. Fe aethom i westy Llechen yn Nhalybont a chafwyd bwyd blasus a chwmni difyr. Diolch i Carys am wneud y trefniadau.

Cyngor Llanddeiniolen

Diolch i Eleri Bean am anfon crynodeb i mi yn fisol. **Cysgodfannau Bws** Yn dilyn cais gan y Cyngorwyr Hefin Williams a Rhian Evans-Hill y llynedd ac eleni eto am gysgodfan bws yn Rhiwlas gofynnwyd i'r clerc holi am brisiau. Gwnaethpwyd hynny ac mae yna amcangyfrif wedi dod i law am gysgodfan ail law gyda pris gosod yn ychwanegol. Mae cysgodfan newydd yn costio yn agos i £4,000 a gosod. Penderfynwyd gosod, os yn bosibl, cysgodfan ail law yn y lle mwyaf addas.

Dymuno'n dda

Yn ystod yr wythnosau diwethaf treuliodd Ieuan Owens, fferm Glanrhyd, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn codwm. Brysiwch wella a phwyll piau hi rwan. Yn yr un modd bu Mrs Meirwen Owen, Frondeg gynt, hefyd yn yr ysbyty ond yn ôl nawr yng Nhartref Nyrsio Glan Rhos. Pob dymuniad da i chwithau hefyd ac i bawb arall sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

Beirniadu

Yn ystod yr Wyl Fwyd yn Llandudno fe gynhaliwyd cystadleuaeth gwneud Teisen Gri, sy'n ffefryn ganddom ni yng Nghymru.

Roedd Linda Jones, Erw Wen yn un o'r beirniad a chafwyd ugain yn cystadlu. Yr enillydd oedd Bev Marsh o Dywyn a dim ond unwaith o'r blaen yr oedd wedi gwneud teisen gri. Noddwyd y gystadleuaeth gan Creision Jones o Bwllheli a llongyfarchiadau i Linda ar gael ei dewis i feirniadu.

Calendrau cofiwch am y calendrau, mae Gareth yn cael hwyl dda ar eu gwerthu, ond mae rhai ar ôl o hyd.

Cyfarchion yr Wyl

Rwy'n hoff iawn o englynion, maent yn cyflwyno'r neges yn gryno ac un o fy ffefrynnau am y yr Wyl yw Ymson Mair gan T Arfon Williams a chyda'r Englyn yma dymunaf Nadolig Llawen i'n darllenwyr.

Ymson Mair

Heno datgelwyd i minnau paham Y mae pen y bryniau Oll yn oll yn llawenhau,- Mae'r ateb yn fy mreichiau.

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR

Llun - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 16:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com

01248 600219



Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Croesawyd y Dr. John Llywelyn Williams i Glwb Hanes Rachub ym mis Tachwedd, a cafwyd sgwrs werth chweil ganddo am dri gŵr dylanwadol, o wahanol gyfnodau, oedd â chysylltiadau âg Eglwys Llanllechid. Roedd y tri yn wŷr gwybodus, deallus a chlyfar tu hwnt – pob un â'i hanes arbennig ei hun yng nghyd-destun digwyddiadau hanesyddol arwyddocaol.

Y cyntaf oedd Griffith Williams [16-17fed ganrif], gŵr o deulu cyffredin o Lanrug, a gafodd ei addysgu pan yn 15 oed mewn ysgol yn Rhydychen cyn mynd ymlaen i Goleg Caergrawnt. Roedd yn byw yn ystod y Rhyfel Cartref ac roedd ganddo safbwyntiau cryfion am wleidyddiaeth y dydd. Cafodd swydd fel tiwtor yn Eglwys St Paul, ond yn anffodus, roedd Esgob Llundain wedi cymryd yn ei erbyn, ac Archesgob Caergaint yn awyddus iddo adael y swydd, felly daeth i Llanllechid yn 30 oed! Ond dechreuodd Esgob Bangor dderbyn cwynion amdano, – nad oedd yn cynnal digon o wasanaethau, ac roedd y ddau'n dadlau'n gyson. Bu'n gweithio mewn nifer o lefydd yn Lloegr a Sir Fôn, yn ogystal â bod yn Ddeon Eglwys Bangor cyn mynd draw i Iwerddon yn ystod cyfnod cythryblus iawn.

Er yr holl anturiaethau, roedd Llanllechid yn agos at ei galon, a gadawodd arian yn ei ewyllys i gynnal tlodion yr ardal.

Roedd Evan Evans [18fed ganrif] neu Ieuan Brydydd Hir, yn cael ei gydnabod fel ysgolhaig mwyaf ei gyfnod yn ogystal â chiwrad a bardd. Yn wreiddiol o Sir Aberteifi, bu yntau'n gweithio mewn nifer helaeth o lefydd cyn treulio cyfnod hapus iawn yn Llanllechid. Cafodd drafferth gydag esgobion gwrth-Gymreig y cyfnod, ac aeth i Goleg Aberystwyth i astudio Hebraeg ac Arabeg. Collodd pob nawdd, a bu farw'n ddyn tlawd.

Ciwrad o Eifionydd oedd Morris Williams [19eg ganrif] neu Nicander, – ysgolhaig a ddaeth i Llanllechid yng nghyfnod adeiladu'r eglwys newydd. Mae'n wir dweud ei fod wedi dod âg ysbryd efengylaidd newydd i'r ardal.

Mae'n anhygoel meddwl fod Llanllechid wedi denu cymaint o bersonoliaethau mor ddylanwadol. Gobeithiwn, fel cymdeithas, y byddwn ninnau'n gallu denu Dr. J. Ll. Williams yn ôl i'n plith i roi sgwrs ddiddorol arall rhywbryd! Diolch yn fawr. Cofiwch am gyfarfod Mis Ionawr 31, 2018, pan gawn noson dan ofal aelodau'r Clwb.

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Clwb y Mynydd

Bu aelodau Clwb y Mynydd am drip i Gaer i wneud dipyn o siopa Nadolig. Cafwyd diwrnod sych a braf, a phawb wedi mwynhau. Diolch i Glyn, gyrrwr y bws, am edrych ar ôl pawb!

Bingo

Cynhaliwyd Bingo Nadolig y Clwb Ieuencid yn y Neuadd Goffa. Dymuna Iola a'r tîm ddiolch i bawb a ddaeth ar y noson. Diolch hefyd am y gwobrau a'r anrhegion a dderbyniwyd at y Bingo, gan ddymuno Nadolig Llawen i chwi.

Cyfarchion Nadolig

Ni fydd Mrs. Mair Williams, 25 Arafon, yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond hoffai ddymuno Nadolig Llawen i'w holl deulu a'i ffrindiau gan ddiolch iddynt am eu cymorth a'u cyfeillgarwch.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Rhagfyr

- 17 9.45 y.b. – Gwasanaeth “Naw Llith a Carol”
- 24 11.30 y.h. – Dydd Nadolig Crist – Cymun Bendigaidd
- 31 9.30 y.b. – Cymun Bendigaidd – Eglwys St. Mair, Tregarth (Yr unig wasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn).

2018

Ionawr

- 7 9.45 y.b. – Gwasanaeth Teuluol
- 14 9.45 y.b. – Cymun Bendigaidd
- 21 9.45 y.b. – Boreol Weddi

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaethau dros yr Ywl.

Diolch i bawb a gefnogodd y “Ffair Nadolig” Enillydd yr “Hamper Nadolig” oedd Mr. Gwyndaf Roberts, Bethesda.

Cofiwch am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



Bod yn ymwybodol o beryglon tacsis twyllodrus

Mae Cyngor Gwynedd yn rhybuddio'r cyhoedd i beidio defnyddio ‘tacsis’ didrwydded a heb yswiriant sydd yn cymryd mantais o gwsmeriaid.

Bydd nifer o bobl allan yn mwynhau eu hunain yn y cyfnod rhwng rwan a diwedd y flwyddyn, ac y mae'n bwysig fod ganddynt fynediad i wasanaeth tacsî i'w cludo adref yn ddiogel.

Fel mae'r galwad am dacsîs yn cynyddu, felly hefyd mae'r perygl o unigolion sydd heb drwydded a heb yswiriant yn manteisio ar y cyfle i elwa drwy gynnig gyrru pobl adref.

Mae unigolion yma sydd yn cynnig cludo rhywun drwy hysbysebu ar Gyfryngau Cymdeithasol neu yn y fan a'r lle heb y drwydded angenrheidiol yn gweithredu yn erbyn y gyfraith, ac fe allent gael eu herlyn.

Mae'n peryglu bywydau cwsmeriaid

a phobl eraill ar y ffyrdd. Mae hefyd yn tanseilio ymdrechion y gyrrwyr tacsîs hynny sydd yn gweithredu o fewn y gyfraith ac sydd yn darparu gwasanaeth o'r safon uchaf.

Meddai'r Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Amgylchedd: “Mae diogelu'r cyhoedd yn hollol bwysig, yn enwedig pobl sydd yn teithio mewn tacsî ar ben eu hunain.

“Mae yna wasanaeth tacsîs dibynadwy ac effeithlon yng Ngwynedd, ac mae'r gyrrwyr trwyddedig hyn wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn y sir yn mwynhau nosweithiau diogel.

“Maent wedi derbyn y drwydded a'r yswiriant angenrheidiol er mwyn gweithredu a gweithio'n agos efo'r Cyngor er mwyn sicrhau gwasanaeth y gallwn ymddiried ynddo.”

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Cangen Tregarth o Ferched y Wawr
Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Tachwedd yn Festri Capel Shiloh, Nos Lun, Tachwedd 6, gan Gwenda. Cydymdeimlwyd gyda Nesta a Iolo Williams yn eu profedigaeth o golli brawd Iolo, sef Dr Iwan Bryn Williams, y Bala. Dymunwyd gwellhad i David, priod Val, Glan Gors, fu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Dilwyn, gwr Linda, am ei lwyddiant yn y Brifysgol ym Mangor. Dymunwyd yn dda i Allison, Myfanwy a Linda fydd yn cynrychioli'r gangen yn y Cwis Hwyl ym Mis Tachwedd.

Tair o aelodau ifanc y gangen oedd yn gyfrifol am ddweud eu dweud yng nghyfarfod Mis Tachwedd. Teitl y noson oedd 'Arwyddo ar gyfer y byddar', a cawsom fel aelodau wybod beth ydi 'r manteision a'r anfantheision o fagu plentyn sydd gyda diffyg clyw. Andrea Williams, Jen Margiad a Iona Rhys oedd y tair mam sydd hefo un o'u plant gyda diffyg clyw. Mae y tri plentyn wedi derbyn eu haddysg mewn ysgolion prif ffrwd, sef mewn ysgolion lleol sydd yn darparu ar gyfer pob plentyn. Ond gyda plentyn sy'n cael trafferthio clywed mae'n rhaid darparu rhywfaint o addysg arbennig are eu cyfer ac yn aml iawn mae hynny'n frwydr i'r teulu orfod eu gwynebu. Mae angen help o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau fod y plentyn yn medru gyrru ymlaen gyda'i waith yn annibynnol fel pob plentyn arall. Yn aml nid yw'r cymorth yma ar gael. Yn ystod y noson cawson ein harwain i fyd arwyddo ar gyfer y byddar. Roedd y dair siaradwraig wedi bod ar gyrsiau Arwyddo ac eraill o'r teulu hefyd yn gorfod cael sesiynnau fyddai o gymorth i'r plentyn byddar. Yn aml maent yn blant sydd angen datblygu hyder ac yn ystod y noson roedd yn hyfryd clywed sut roedd y tri wedi datblygu drwy gymeryd rhan mewn chwaraeon o bob math ac mewn sesiynnau siarad cyhoeddus. Gall athro ac hyfforddwr wneud ei ran i ddatblygu a chyfoethogi bywyd y plentyn.

Pwysleisiodd y dair pa mor bwysig yw cael athrawon o fewn ein hysgolion sydd yn medru cyfathrebu drwy Arwyddo. Dylai hyfforddiant athro roi'r cyfle iddo ddyysgu peth o'r dull Arwyddo.

Diolchwyd i Andrea, Jen a Iona an noson werth chweil gan Linda ac roedd yn agoriad llygad gwybod cymaint o newid all ddigwydd ar aelwyd os oes rhai o't teulu

yn byw gyda diffyg clyw.

Paratowyd y baned gan Rita a Val a buddugwyr y clustdlysau oedd Gwenda, Eirwen a Margaret.

Cynhelir Cinio Nadolig y gangen yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda, Nos Lun, Rhagfyr 4.

Ni fyddwn yn cyfarfod ym Mis Ionawr ond ar Chwefror 5 bydd Noson o Gelf y Pasg yng nghwmni Margaret a Jen. Croeso i Festri Capel Shiloh am 7.30 o'r gloch.

Capel Shiloh, Tregarth
Gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

Rhagfyr 17 Oedfa Deulu y Nadolig am 4 o'r gloch a pharti Nadolig i ddilyn.

Rhagfyr 24 Oedfa Garolau

Rhagfyr 31 Trefniant Lleol

Ionawr 7 Richard Gillion

Ionawr 14 Eric Jones, Bangor

Ionawr 21 Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

Ionawr 28 Philip Barnett, Swydd Efrog

Drws Agored

Drws agored yn Shiloh bob bore Gwener ar gyfer cwmni, sgwrs a phaned

Eglwys y Santes Fair
Gwasanaethau

Rhagfyr 17eg

9:30yb - Boreol Weddi

Rhagfyr 24ain - Noswyl Nadolig

9:30yb - Gwasanaeth Carolau

4:00yp - Gwasanaeth Preseb

Rhagfyr 25ain - Dydd Nadolig

9:30yb - Cymun Bendigaidd

Rhagfyr 31ain

9:30yb - Gwasanaeth ar y cyd

Eglwysi Bro Ogwen yn ymuno gyda'r Gelli

Ionawr 7fed

9:30yb - Boreuol weddi

Ionawr 14eg

9:30yb - Cymun Bendigaidd

Clwb Cant Canolfan Tregarth
Mis Tachwedd

56 Peter Roberts - £15

2 Owenna Thomas - £10

18 Carys Williams - £5

Mis Rhagfyr

1 Margaret Jones - £15

42 Betty Jones - £10

45 Dafydd Owen - £5

Bonws Nadolig

3 Gomer Davies - £15

Dydd Sul Tachwedd 19 cynhaliwyd diwrnod o hwyl a gem beldroed yng Nghanolfan Tregarth er cof am Eddie Feaver , Bro Syr Ifor. Codwyd swm o £1000 i gronfa altseimer.

Dymuna Myfanwy Morris (Pant yr Ardd gynt) ddiolch o waelod calon am y parti syrpreis a'r holl ddymuniadau da , y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed.

Daeth i law newyddion trist am farwolaeth sydyn Mr Raymond Daxter. Cymeriad cymwynasgar iawn oedd bob amser yn weithgar ac yn ffydlon i'w eglwys. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei frodyr a'u teuluoedd yn eu profediaeth.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Tachwedd aeth rhai o aelodau'r gangen i gyfarfod o bwyllgor gwaith etholaeth Arfon, yn bennaf i drafod materion gweinyddol . Yno etholwyd Jane Foster-Coulter o bentref Llandygai fel un o'r ddau sy'n cynrychioli Arfon ar fforwm polisi Plaid Lafur Cymru ac aeth hi i gyfarfod cyntaf y fforwm yn Merthyr ddiwedd y mis.

Wedyn, yng nghanol y mis, cynhaliwyd cyfarfod deufisol y gangen i dderbyn yr adroddiadau arferol , rheolau a gorchmynion newydd arfaethedig Plaid Lafur Arfon ac i baratoi ar gyfer Ffair y Nadolig e.e. adroddwyd bod cynllun i adeiladu tai newydd ger Canolfan Feddygol Bethesda, bod Cyngor Gwynedd wedi codi pris cinio ysgolion o £2.30 i £2.50 (yr uchaf yng Ngogledd Cymru) , bod Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £7 miliwn mewn hyfforddiant

meddygol yng Ngogledd Cymru dros ddwy flynedd a bod diweithdra yn Ewrop yr isaf ers naw mlynedd.

Yna aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod misol Plaid Lafur Arfon yn Nghaernarfon, yn bennaf i drafod materion mewnol ac i baratoi ar gyfer y diwrnod o weithredu cenedlaethol ym Mangor tua diwedd y mis.

Ar ddiwedd y mis cynhaliwyd Ffair Nadolig y gangen yn Neuadd Ogwen, gyda Siôn Corn, mins peis, cerddoriaeth Nadoligaidd a'r stondinau arferol. Am fod bore coffi arall dros ffordd, daeth mwy o bobl, gan fynychu'r ddau fore coffi a chodwyd elw sylweddol at goffrau'r gangen

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen ar yr ail Nos Fercher yn mis Ionawr (y 10fed) am 7:30 y.h. yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda.

Ysgol Tregarth

Gala Nofio'r Urdd

Dydd Sadwrn Tachwedd 18 bu disgyblion Ysgol Tregarth yn cystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd ym mhwl nofio Bangor. Nofiodd pawb yn arbennig o dda ac roedd yn brofiad gwerthfawr iawn i'r plant.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Da iawn i bawb o Ysgol Tregarth a ymdrechodd yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Yn sicr roedd safon y cystadlu yn uchel iawn, perfformiadau ac ymddygiad y plant i gyd i'w canmol.

Llwyddiannau Gymnasteg

Yn ddiweddar bu Erin Morris yn cystadlu yng nghystadleuaeth 'Welsh Tumbling Championships'. Llwyddodd Erin i ennill 2 fedal arian yn y gystadleuaeth, ardderchog! Rydym yn falch iawn ohoni am ei hymdrech ac ymroddiad. Da iawn Erin! Hefyd mae Judah Parry wedi cael ei ddewis i ymarfer gyda thîm gymnasteg Cymru. Mi fydd Judah yn teithio lawr i Abertawe unwaith y mis er mwyn ymarfer gyda'r tîm, arbennig! Mae pawb o Ysgol Tregarth yn falch iawn ohono.

Taith yr Iaith

Pnawn Llun, Tachwedd 10fed bu disgyblion CA2 yn ddigon lwcus i gael ymweliad gan Llion Williams i gyflwyno Sioe Mewn Cymriiad, Taith yr Iaith. Yn sicr mae pawb bellach yn ymwybodol o brif bwyntiau hanes yr Iaith Gymraeg, a phob un wedi gwneud addewid i helpu i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg! Gwych oedd gweld y plant yn derbyn y neges mewn ffordd ffres, bywiog ac ysbrydoledig a fydd yn eu cymell i arddel eu Cymreigrwydd.

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Cafodd Dosbarth Ffrydlas gyfle i ymweld a Venue Cymru bnawn Llun , Tachwedd 20fed. Ymuno oedden ni a llu o blant eraill i werthfawrogi perfformiad arbennig gan y gerddorfa ar gyfer plant yn unig. Cafwyd pnawn o drio gwahanol offerynnau, ymuno gyda'n 'shakers' a mwynhau yr amrywiaeth o gerddoriaeth a gyflwynwyd mewn dull hwyliog a byrlymus. Profiad newydd oedd hwn i lawer o'r plant a'u mwynhad yn amlwg.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Cafwyd diwrnod o hwyl i gasglu arian tuag at elusen 'Plant mewn angen'. Daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo pyjamas a thalu am gael wneud hynny. Diwrnod braf iawn a chael codi arian yr un pryd.

Operation Christmas Child

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gyfranu

bocs at yr elusen hon. Llwyddodd yr ysgol i gasglu 49 bocs, ffantastig! Mae'n braf meddwl bod haelioni plant Tregarth am roi gwên ar wynebau a dod a hapusrwydd i blant llai ffodus y Nadolig iawn. Diolch i chi gyda am fod mor garedig.

Cyngerdd cyntaf Dosbarth Idwal!

Braf oedd cael croesawu rhieni, teulu a ffrindiau'r plant sydd yn y Dosbarth Meithrin a Derbyn ar gyfer eu cyngerdd cyntaf. Bu'r plant yn brysur yn ymarfer caneuon am wythnosau ymlaen llaw ac roedd y neuadd yn fôr o gân a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Mae yna ambell i seren y dyfodol yn ein plith! Roedd hi'n braf cael paned a sgwrs fach ar ddiwedd y cyngerdd. Da iaw chi blantos!



Y Rhyfel Byd Cyntaf

Richard Thomas Price
gan Andre Lomozik

Mis Mehefin llynedd roeddwn wedi coffau Richard Thomas Price, a laddwyd ar yr 27-6-1916, yng ngwlad Belg. Roedd wedi ymuno a'r 2nd Tunnelling Coy. Canadian Engineers. Derbyniais lythyr rhai wythnosau yn ddiweddarach gan Mrs Donna Coleby, o Preston, yn adrodd ychydig mwy o'i hanes. Rwyf wedi bod mewn cysylltiad a Mrs Coleby unwaith eto yn holi os oedd ganddi lun o Richard, gan fy mod yn ceisio rhoi casgliad o luniau milwyr a laddwyd, ac a fu yn ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, at ei gilydd. Yn garedig iawn anfonodd becyn trwy'r post i mi gyda'r llun yma ohono.

Brawd i nain Mrs Coleby oedd Richard, a rhywbryd rhwng 1911 a 1915 roedd wedi ymfudo i Canada lle'r ymaelododd a'r

Canadian Over-Seas Expeditionary Force. Mae ei bapurau tystiolaeth yn ei ddisgrifio yn bump troedfedd ag un ar ddeg modfedd o daldra gyda llygaid glas a gwallt tywyll, a bod ganddo tatŵ ar ei fraich chwith. Pedair blynedd yn ôl aeth Anne, chwaer Mrs Coleby i wlad Belg a darganfod ei fedd yn Railway Dugouts Burial Ground. Wedi ei naddu ar waelod ei garreg fedd mae y geiriau 'Hun Mewn Hedd'. Mae Richard wedi ei goffau mewn llyfr coffa Rhyfel Byd Cyntaf yn y 'Memorial Chamber of the Peace Tower Canada' hefyd. Mae un dirgelwch ynglŷn a Richard yn sefyll o hyd i Mrs Coleby a'i chwaer, sef pam ymfudodd Richard i Canada, ac yn ôl Mrs Coleby gan fod canrif wedi mynd heibio y tebygrwydd yw na chawn wybod byth.

Cofiwch gysylltu a mi os oes genych lun o un o'r bechgyn a fu yn y Rhyfel Byd Cyntaf.





CRWYDRO Teithiau ER BUDD 2018

Dwy daith gofiadwy

**Brasil, Yr Ariannin a'r Wladfa Gymreig
31 Mai - 16 Meh, 2018**



**Rhinweddau De Affrica
Medi 8-22, 2018**



Y ddwy daith i gynnwys: Gwestai a brecwast oni nodir yn wahanol • Hediadau rhyngwladol a mewnol • Cludiant i ac o faes awyr Manceinion • Cludiant a thywyswyr profiadol trwy gydol y daith.

Am fwy o fanylion a ffurflen archebu, cysylltwch â Dafydd Owen
Arwelfa, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7DL

01286 881 911 (dydd) 07795 485 081 (symudol)
ebost: crwydro@crwydro.com

www.crwydro.com



Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

Gwarchod Enwau Lleoedd yr Ardal

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn trefnu gweithdy casglu enwau Dyffryn Ogwen yn Neuadd Ogwen Bethesda ddydd Sadwrn, 24 Chwefror, 2018 rhwng 10.30 a 3.30 yp. Byddwn yn casglu, cofnodi mân enwau'r ardal er mwyn eu gwarchod. Mae hyn yn cynnwys enwau ffermydd, caeau, ogofâu, llwybrau, pyllau afonydd, mynyddoedd, murddunnod a llawer mwy.

Gofynnwn i bawb sydd â mân enwau ar gof a chadw i ddod â nhw, **ar fap** os yn bosibl, a'n cynorthwyo i'w lleoli ar ein map digidol, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac Esri, ar y we. Wrth gofnodi enwau ar y map digidol, byddwn hefyd yn creu cronfa ddata genedlaethol o'r enwau, yn ein gofal ni a'r Llyfrgell Genedlaethol. Bydd hyn yn gwarchod enwau i'r cenedlaethau a ddaw.

Mae llawer o'n henwau lleoedd yn hynafol iawn, rhai'n dyddio'n ôl i gyfnod y tywysogion Cymreig. Dylid eu gwarchod fel mae deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio yn gwarchod henebion, yr amgylchedd ac ystlumod. Yn rhy aml o lawer, gwelwn enwau hynafol yn cael eu newid yn ddifeddwl neu eu cyfieithu, gan ddinistrio'r enw a'r hanes sydd ynghlwm wrth yr enw. Does dim deddf i'w gwarchod, ac er i ni ymdrechu i ddwyn perswâd ar ein llywodraeth am ddeddfwriaeth, ni fuom yn llwyddiannus. Rydym i gyd yn bryderus fod enwau'n cael eu newid a'u colli ynghyd â'r hanes sydd yn cyd-fynd â nhw. Gallwch wneud gwahaniaeth drwy gofnodi a gwarchod rhai o enwau

cyfoethog Cymru.

Gwahoddwn chi i alw heibio yn ystod y dydd, unrhyw bryd rhwng 10.30 a 3.30, am sgwrs. Dewch ag unrhyw enwau sydd ar eich cof neu dewch â nhw ar fap os medrwh. Dewch i wneud gwahaniaeth ac i warchod rhai o'n enwau hynafol. Croesawn aelodau'r cyhoedd a chynrychiolwyr mudiadau lleol a chenedlaethol i gyfrannu.

Sefydlwyd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru dan adain Cymdeithas Edward Llwyd ac mae'n cydweithio bellach gyda sawl cymdeithas genedlaethol a lleol arall yng Nghymru sy'n rhannu amcanion tebyg. Mae'r rhain yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd, galluogi eraill i gofnodi a gwarchod enwau, i ddadansoddi a dehongli enwau; gweithredu fel cyfrwng i warchod enwau lleoedd Cymru; rhannu gwybodaeth a'i wneud yn hygyrch i bawb.

Wrth egluro pwysigrwydd eu cefnogaeth, dywedodd Jennifer Stewart, pan yn bennaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru, "Mae enwau lleoedd lleol yn rhan annatod o hunaniaeth genedlaethol Cymru sy'n cael eu gwreiddio'n aml yn y gorffennol pell. Rydym yn falch iawn i gefnogi'r prosiect hwn a fydd yn cymryd camau hanfodol wrth sicrhau bod yr enwau lleol yn cael eu cofnodi i greu adnodd cenedlaethol i bawb."

Cysylltwch â Neuadd Ogwen
post@neuaddogwen.com
(01248) 605388
am fwy o wybodaeth neu â ni ar e-bost: enwaulleoedd@gmail.com

Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan



Canlyniadau Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2017

Llefaru Meithrin

1af – Efa Gwen Owen – Ysgol Llanllechid
2il – Lili Mai Herbert – Ysgol Llanllechid ac
Ela Grace Evans – Ysgol Llanllechid
3ydd – Elsi Allsup – Ysgol Llanllechid ac
Eban Roberts – Ysgol Llanllechid

Unawd Meithrin

1af – Lili Mai Herbert – Ysgol Llanllechid ac
Elsi Allsup – Ysgol Llanllechid
2il – Ela Grace Evans – Ysgol Llanllechid
3ydd – Illtud – Ysgol Abercaseg, Alfie
Muldoon – Ysgol Llanllechid ac Eban
Roberts – Ysgol Llanllechid

Llefaru Derbyn

1af – Griff Roberts – Ysgol Llanllechid
2ail – Robin Glyn – Ysgol Llanllechid
3ydd – Cian Amos a Catrin Haf – Ysgol
Llanllechid

Unawd Derbyn

1af – Cian Amos- Ysgol Llanllechid
2il – Seren Lois – Ysgol Abercaseg,
Catrin Haf Jones a Griff Roberts – Ysgol
Llanllechid
3ydd – Angharad Manon Llwyd – Ysgol
Abercaseg, Mia Lois a Lili Mair Williams –
Ysgol Llanllechid

Llefaru Blwyddyn 1

1af – Elan Dafydd Morris – Ysgol Llanllechid
2il – Elenya D’Amora – Ysgol Abercaseg
3ydd – Scarlett Davies – Ysgol Llanllechid

Unawd Blwyddyn 1

1af – Elenya D’Amora – Ysgol Abercaseg
2il – Ela Lois – Ysgol Llanllechid
3ydd – Catrin Mair Morris a Math Rhys
Pritchard – Ysgol Abercaseg

Llefaru Blwyddyn 2

1af – Gruffydd Beech – Ysgol Llanllechid
2il – Celyn Rhys – Ysgol Abercaseg
3ydd – Cara Grace Lennox – Ysgol
Llanllechid

Unawd Blwyddyn 2

1af – Wil Pritchard – Ysgol Llanllechid
2il – Martha Wyn – Ysgol Abercaseg
3ydd – Gruffydd Beech – Ysgol Ysgol
Llanllechid

Llefaru Blynyddoedd 3 a 4

1af – Gwenno Beech – Ysgol Llanllechid
2il – Mali Fflur – Ysgol Llanllechid
3ydd – Seren Roberts – Ysgol Llanllechid

Unawd Blynyddoedd 3 a 4

1af – Gwenno Beech – Ysgol Llanllechid
2il – Esther Parry – Ysgol Tregarth
3ydd -Seren Roberts – Ysgol Llanllechid

Llefaru Blynyddoedd 5 a 6

1af – Rhiannon Elfyn – Ysgol Pen y Bryn
2il – Madeleine Sinfield – Ysgol Llanllechid
3ydd – Ffion Tipton – Ysgol Llanllechid

Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau

1af – Cian Iolen – Ysgol Pen y Bryn
2il – Rhiannon Elfyn – Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Esther Parry – Ysgol Tregarth

Unawd Blynyddoedd 5 a 6

1af – Rhiannon Elfyn – Ysgol Pen y Bryn
2il – Cian Iolen – Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Ellie Roberts -Ysgol Pen y Bryn

Parti Llefaru Ysgol Gynradd

1af – Parti Ysgol Pen y Bryn
2il – Parti Ysgol Llanllechid

Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau

1af – Esther Parry – Ysgol Tregarth
2ail – Hannah Hughes – Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Gwenno Roberts – Ysgol Y Garnedd
a Leusa Morris – Ysgol Llanllechid

Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau

1af – Rhiannon Elfyn – Ysgol Pen y Bryn

Grŵp Offerynnol Blwyddyn 6 a iau

1af – Ysgol Tregarth
2il – Ysgol Llanllechid

Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau

1af – Parti Bl.6 Ysgol Pen y Bryn
2il – Parti Bl.4 Ysgol Pen y Bryn a Ysgol
Llanllechid
3ydd – Parti Tregarth

Unawd Cerdd Dant

1af – Gwenno Beech – Ysgol Llanllechid

Côr Blwyddyn 6 ac iau

1af – Côr Ysgol Llanllechid
2il – Côr Ysgol Pen y Bryn

Grŵp Dawnsio Disgo Blwyddyn 6 ac iau

1af – Parti Aysha – Ysgol Llanllechid
2il – Parti Gwenno – Ysgol Llanllechid

Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru

Rhiannon Elfyn – Ysgol Pen y Bryn

Tarian Perfformiad Gorau Cerddorol

Rhiannon Elfyn – Ysgol Pen y Bryn

Llenyddiaeth Ysgolion Cynradd y Dalgylch Stori

1af – Elsi Owen – Ysgol Llanllechid
2il – William Jones – Ysgol Llanllechid
3ydd – Madeline Sinfield – Ysgol
Llanllechid

Barddoniaeth

1af – Jac Simone – Ysgol Llanllechid
2il – Lowri Sturrs – Ysgol Llanllechid
3ydd – Ayesha Roberts – Ysgol Llanllechid

CYFARFOD YR HWYR – NOS WENER TACHWEDD 17EG, 2017

Unawd Lleisiol

1af – Erin Fflur – Y Felinheli
2il – Gwilym Rhys – Bethel
3ydd – Glyn Morris – Manceinion

Unawd Offerynnol (yn cynnwys piano)

1af – Ella Williams – Bontnewydd
2il – Gwydion Rhys – Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd – Ynyr Pritchard – Ysgol Brynrefail

Côr Cymysg/Meibion/Merched:

1af – Côr Meibion y Penrhyn
2il – Côr Ysgol Dyffryn Ogwen

Rhaglen o Adloniant i Ysgolion Uwchradd

1af – Ensemble Pres Ysgol Syr Hugh Owen
2il – Ensemble Ysgol William Mathias

CANLYNIADAU ADRAN LLENYDDOL

Enillydd y Gadair:
Cefin Roberts – Bangor

Enillydd y Fedal Ryddiaith:
Cefin Roberts – Bangor

Enillydd Medal yr Ifanc:
Martha Glain Efans – Ysgol Dyffryn Ogwen

LLÊN YR IFANC

Blynyddoedd 7-9:
1af – Begw Angharad Evans – Ysgol Dyffryn
Ogwen
2il – Martha Jones – Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd -Nel Roberts a Grace Wynne –
Ysgol Dyffryn Ogwen

Blynyddoedd 10-11:
1af – Beca Nia – Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Ella Baker – Ysgol Dyffryn Ogwen

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2017



Grwp Offerynnol
Bl. 6 ac Iau
Dwy
gynrychiolydd o
grwp buddugol
Ysgol Tregarth
newydd dderbyn
y wobwr.



Enillydd Dwbwl - Y gadair a'r Fedal Ryddiaith: Cefin Roberts,
Bangor ac Enillydd Medal yr Ifanc: Martha Glain Efans, Ysgol
Dyffryn Ogwen.



Llefaru Blwyddyn 1 (o'r chwith): Scarlett Davies, Ysgol Llanllechid
- 3ydd; Elenya D'Amora, Ysgol Abercaseg - 2il; Elan Dafydd Morris,
Ysgol Llanllechid - 1af.



Llefaru Meithrin (o'r chwith): Elsi Allsup, Ysgol Llanllechid - cydradd
3ydd; Lili Mai Herbert ac Ela Grace Evans, Ysgol Llanllechid -
cydradd 2il; Efa Gwen Owen, Ysgol Llanllechid - 1af.



Unawd Blwyddyn 1 (o'r chwith): Math Rhys Pritchard, Ysgol
Abercaseg - cydradd 3ydd; Catrin Mair Morris, Ysgol Llanllechid
- cydradd 3ydd; Ela Lois, Ysgol Llanllechid - 2il; Elenya D'Amora,
Ysgol Abercaseg - 1af.



Unawd Meithrin (o'r chwith) Lili Mai Herbert ac Elsi Allsup, Ysgol
Llanllechid - cydradd 1af; Ela Grace Evans, Ysgol Llanllechid - 2il;
Alfie Muldoon, Ysgol Llanllechid - cydradd 3ydd.



Llefaru Bl. 2 (o'r chwith): Cara Grace Lennox, Ysgol Llanllechid
- 3ydd; Celyn Rhys, ysgol Abercaseg - 2il; Gruffydd Beech, Ysgol
Llanllechid - 1af.



Unawd derbyn (o'r chwith): Seren Lois, Ysgol Abercaseg - cydradd 2il; Griff Roberts, Ysgol Llanllechid - cydradd 2il (hefyd 1af am Lefaru); Catrin Haf Jones, Ysgol Llanllechid - Cydradd 2il; Cian Amos, Ysgol Llanllechid - 1af.



Enillwyr Parti Llefaru Ysgol Gynradd: Parti Ysgol Pen y Bryn.



Llefaru Bl. 6 ac iau (o'r chwith): Ffion Tipton, Ysgol Llanllechid - 3ydd. Rhiannon Elfyn, Ysgol Pen y Bryn - 1af.



Parti Unsain Bl. 6 ac iau: Buddugol - Parti Bl. 6 Ysgol Pen y Bryn.



Parti Unsain Bl. 6 ac Iau Parti Ysgol Tregarth - 3ydd



Côr Bl. 6 ac iau: Buddugol - Ysgol Llanllechid.



Parti llefaru Ysgol Gynradd Parti Ysgol Llanllechid - 2il



Merched y Ddawns Flodau o Ysgol Rhiwlas.



Enillydd Dwbl: Rhiannon Elfyn, Ysgol Pen y Bryn - Perfformiadau Gorau yn yr adran Gerddorol a'r adran Lefaru.




Gwenno Beech, Ysgol Llanllechid.
1af - Unawd Cerdd Dant.
1af - Llefaru Bl. 3 a 4.
1af - Unawd Bl. 3 a 4.



Esther Parry, Ysgol Tregarth.
Buddugol - Unawd Offerynnol Bl. 6 ac iau.
2il - Unawd Bl. 3 a 4.
3ydd - Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau.



Cian Iolen, Ysgol Pen y Bryn.
1af - Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau.
2il - Unawd Bl. 5 a 6.



Madelaine Sinfield, Ysgol Llanllechid -
2il - Llefaru Bl. 5 a 6.

Cofiwch Brynu

Calendr Llais Ogwan



Yr anrheg Nadolig
ddelfrydol

£4.00 yn y siopau lleol
neu ffoniwch

Walter Williams
01248 601167

Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Cyngerdd bythgofiadwy yn Pontio gyda Gwawr a Gwyn.

Erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn bydd y côr wedi cynnal cyngerdd mawreddog gyda Gwawr Edwards y soprano enwog o Geredigion a Gwyn Owen y trympedwr medrus o Dregarth. Roedd hwn yn gyngerdd nodedig yn hanes Côr y Penrhyn gan ei fod yn un o'r digwyddiadau mawr mae'r côr yn ceisio'i drefnu'n flynyddol i ddod â'r gorau o fyd canu a cherddoriaeth i gyrraedd pobl Gwynedd, Môn a Gogledd Cymru'n gyffredinol.

Gŵyr pawb yng Nghymru am ddawn Gwawr Edwards fel cantores ac mae ganddi bresenoldeb sy'n serennu ar unrhyw lwyfan. Mae ei llais soprano yn bur ac yn nerthol a gall swyno cynulleidfia gyda darnau operatig neu ddarnau mwy gwerinol a thraddodiadol.



Ffefryn yr hogia

Mae Tom Owen Williams sy'n canu yn adran yr ail denoriaid yn ffan mawr o Gwawr a meddai, "Dwi wedi bod yn edrych ymlaen ers inni gyd-ganu gyda Gwawr Edwards yn Columbus, Ohio am y cyfle yma i'w chwrdd unwaith eto." Ychwanegodd Tom, "Hi ydy fy ffefryn o blith yr holl sopranos Cymreig oherwydd mae ei llais mor wefreiddiol."

Creda Idwal Jones o Lasinfryn bod proffesiynoldeb cyflwyniadau Gwawr yn ei gwneud yn ffefryn gan fwyafrif aelodau'r côr. Dywedodd Idwal, "Pan fydd y ferch drawiadol hon yn taro nodau uchaf unrhyw ddarn, mae fel trydan yn treiddio i lawr asgwrn cefn dyn a dim ond un neu ddwy o sopranos eraill y wlad all gystadlu â hi am y wefr honno."

Gwyn Owen yn swyno

Mae'r perfformiwr ifanc dawnus hwn o Dregarth wedi ymddangos gyda'r côr ar sawl achlysur a hynny ers dyddiau ysgol pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Tryfan. Fel un o ddisgyblion Owain Arwel, arweinydd y côr, mae Gwyn wedi cael cyfle i ymarfer ei ddawn yn gynnar gyda ni ac mae'n bleser cael ei glywed yn perfformio bob amser.

Mae ei gyflwyniadau crefftus yn wych i wrando arnynt a dywedodd Maldwyn Pritchard, trysorydd y côr, "Un o fy ngofidiau mawr i yw'r ffaith na ddysgais erioed sut i chwarae unrhyw offeryn ond efallai mai cymwynas â chynulleidfaoedd trwy Gymru yw hynny pan rydyn ni'n cael y fraint o glywed rhywun o safon Gwyn yn perfformio." Derbyniodd Gwyn radd dosbarth cyntaf mewn cerdd o'r Academi Gerdd Frenhinol ar ôl pum mlynedd o astudio ac mae'n brysur yn perfformio gyda'r Southbank Sinfonia ymhlith nifer o berfformiadau eraill gyda rhai o gerddorfeydd enwocaf y wlad.

Dathlu agoriad y Llwybr Llechi

Ar Nos Sadwrn Tachwedd 11 ymunodd y côr gyda Band Arian Deiniolen a Chôr Cymysg Penmachno i gynnal cyngerdd dathlu agor y llwybrau llechi yn ardaloedd llechfaen Gwynedd. Gan fod Deiniolen a Phenmachno yn rhan o'r diwydiant llechi



teimlwyd mai da o beth fyddai dod â'r tri at ei gilydd i ddathlu agor datblygiad newydd yn hanes yr ardaloedd hanesyddol hyn. Daeth cynulleidfda deilwng ynghyd i Neuadd Ogwen i wrando a derbyniodd cyfraniad arbennig y côr gyda 'Moliannwn' a 'Tshotolosa' groeso tu hwnt o gynnes.

Hyfryd oedd cael cydweithio gyda Band Deiniolen unwaith eto ond dyma'r tro cyntaf i ni rannu llwyfan gyda côr o Benmachno a gobeithio y daw cyfle i gydweithio gyda nhw eto'n fuan.

Cefnogi'r eisteddfod

"Braf yw cael croesawu Côr Meibion y Penrhyn i'r llwyfan unwaith eto eleni," meddai Neville Hughes arweinydd Eisteddfod Dyffryn Ogwen ar Nos Wener Tachwedd 17 yn Neuadd Ogwen. Aeth yn ei flaen i ddweud, "Mae'r hogia bob amser yn barod eu cefnogaeth i Wyl Fawr y Dyffryn."

Canwyd tri darn, sef **Codwn, Wynebwn y Wawr** Gareth Glynne/Eleri Cwyfan; **Cŵyn y Gwynt** alaw o'r Wcraïn/ geiriau Syr John Morris Jones gyda Hywel Thomas fel unawdydd ac yna, **'Y Tangnefeddwyr'** Eric Jones / Waldo Williams. Derbyniwyd canmolïaeth gan Robat Arwyn, y beirniad am ddewis amrywiol o ddarnau ac am gyflwyniadau persain a chyd asio da. "Mae'r côr yn haeddu'r wobr gyntaf ac am bob clod sy'n mynd gyda hi," meddai.

Cymeriadau'r Côr

Cymeriad y mis hwn yw John Frederick Baston o Dalybont sy'n beiriannydd BT wedi ymddeol. Mae John yn ddyfarnwr peldroed profiadol ac yn chwaraewr bowls heb ei ail. Mae hefyd wedi gweithredu fel dirprwy reolwr y tîm bowlïo i'w gyfaill Maldwyn Pritchard.

Be' ydy dy enw llawn? – John Frederick Baston
Oed? – 68
Gwaith – Wedi ymddeol
Lle wyt ti'n byw? – Talybont, Bangor

Un o le wyt ti'n wreiddiol? – Rachub
Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau? – Cyfeillgar, cystadleuol a blin (meddai Magi'r wraig)
Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr – Pedair blynedd.
Pa lais wyt ti? – Tenor 1.
Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn? – Arwel 'Gelli' yn fy mherswadio ar ôl fy nghlywed yn canu mewn tafarn.
Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr? – 'Y Ddau Wladgarwr' yn Gymraeg a 'Battle Hymn of the Republic' yn Saesneg.
Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores? – Bryn Fôn.
Beth ydy dy farn di am

ganu pop? – Mwynhau gwrando ar ganeuon y chwedegau.
Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr? – Tri mis ar ôl ymuno cael y fraint o ganu gyda'r côr yn Stadiwm y Mileniwm cyn y gêm yn erbyn De Affrica.
Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr? Pel droed, bowlïo gyda ail dim hŷn Bethesda a threulio amser gyda'r wyrion.
Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud? – Cael mynd dramor eto i ganu gyda'r côr fel y daith a gafwyd i America yn 2015.



Ysgol Dyffryn Ogwen

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol a fu’n cymryd rhan yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Llongyfarchiadau yn arbennig i Martha Glain a enillodd Dlws yr Ifanc. Yn y gystadleuaeth gorawl daeth Côr Hŷn yr ysgol yn ail agos i Gôr Meibion y Penrhyn

Diolch hefyd i’r disgyblion fu’n rhan o’r orsedd yn y prif seremoni. Bu nifer o ddisgyblion hefyd yn llwyddiannus yn y cystadlaethau llenyddol eleni, llongyfarchiadau mawr iddyn nhw.

Diolch i Mrs. Delyth Humphreys am hyfforddi’r côr, i Adran y Gymraeg am eu gwaith gyda’r orsedd a’r cystadlaethau llên ac i Mrs. Julie Jones am ei gwaith efo’r cystadlaethau Celf.

‘Teams4U’

Dydd Mawrth, 22ain o Dachwedd, casglwyd nifer helaeth o focsys esgidiau Nadoligaidd yn yr ysgol ar gyfer yr elusen ‘Teams4U’ sy’n rhannu anrhegion i blant anghenus, yng ngwledydd Dwyrain Ewrop yn bennaf. Roedd pob boc yn llawn i’r ymylon ag amrywiaeth o anrhegion yn deganau, da-da, cyfarpar ysgrifennu, llyfrau a sebonach! Sicrhodd disgyblion blwyddyn 12 bod y bocsys yn barod i’w casglu gyda’r cyfraniad ariannol angenrheidiol ynddynt *Disgyblion 7 Ogwen gyda Ms Catrin Williams ac aelodau o’r 6ed dosbarth*

Ymweliad Blwyddyn 10 – Gweithdy GCHQ Prifysgol Caerdydd

Aethom lawr i Gaerdydd mewn bws mini ac aros mewn gwesty ieuenctid yng nghanol Caerdydd. Y bore wedyn cawsom fynd i’r Brifysgol i weithdy gyda GCHQ (Government Communication Head Quarters), roedd yn ddiwrnod o weithgareddau datrys problemau heriol oedd yn ymwneud a gwaith GCHQ. Bu hefyd gyfle i ni ddysgu ychydig o Arabeg, Korean a Tsieineaidd. Yn y prynhawn roedd rhaid i ni roi cyflwyniad yn Ffrangeg a chreu gêm bwrdd. Cawsom y wobwr gyntaf am ein gêm bwrdd. Mwynheais y daith! *Seren Harris 10 Ffranc*



Blwyddyn 12/13

Mae’r tymor hwn wedi bod yn dymor prysur i flwyddyn 13 gan fod rhaid iddynt wneud eu

dewisiadau ôl 18. Yn gynharach yn y tymor cynhaliwyd noson i rieni i esbonio pa opsiynau gyrfa sydd ar gael. Cafwyd



C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn 01492 641798
Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a’r Siop

cyflwyniadau gan Anna Williams o Brifysgol Bangor yn sôn am y drefn o wneud cais i Brifysgol ac esbonio pa newidiadau sydd ar droed gan Llywodraeth Cymru i gymorth ariannol i fyfyrwyr drwy sustem Cyllid i Fyfyrwyr. Yn ogystal, daeth Rebecca Bowen o Brifysgol De Cymru i'r ysgol i roi cyflwyniad a chymorth i'r disgyblion gyda'u datganiadau personol. Mae rhai disgyblion wedi cael ateb gan y Prifysgolion yn barod gyda rhai yn cael cyfweiliadau ac eraill wedi cael cynnig lle ar eu cyrsiau dewis. Dymunwn bob lwc iddynt.

Maes o law bydd blwyddyn 12 ac 13 yn cael cyflwyniad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gael gwybodaeth am y manteision ariannol o astudio cyrsiau gradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cydnabyddiaeth yn y Gwobrau Criced Cenedlaethol

Enwebwyd Ysgol Dyffryn Ogwen yn Ysgol Uwchradd y Flwyddyn yn seremoni wobrwyo flynyddol rhaglen 'Chance To Shine' ar ddydd Mawrth, Tachwedd 14eg.

Cydnabyddwyd Ysgol Dyffryn Ogwen am eu gwaith caled yn cefnogi criced ar lawr dosbarth a thu hwnt. Derbyniodd eu dyfarniad gan fatiwr Middlesex

a Lloegr, Nick Compton a Chris Coleman o Sport England yng nghae criced Lord's, Llundain. Teithiodd bedair disgybl o'r tîm lawr i Lundain i dderbyn y tlws - Begw Evans, Ela Oliver, Natalie Owen a Catherine Roberts ynghyd ag un o'r hyfforddwyr Mr Carwyn Williams.

Am fwy o'r hanes dilynwech yr adran Addysg Gorfforol ar safle Trydar (Twitter) @chwaraeonydo. *Gwobrau Criced Cenedlaethol*

Gymnasteg

Llongyfarchiadau mawr i Daisy Ansell sydd wedi dod yn fuddugol yn nghystadleuaeth gymnasteg Urdd Eryri yn ddiweddar i ferched blwyddyn 7-9. Bydd Daisy yn mynd ymlaen i gynrychioli'r rhanbarth yn y genedlaethol yn Aberystwyth ym mis Chwefror.

Nofio

Mae Cai Thomas wedi bod yn brysur iawn yn nofio yn ddiweddar ym mhencampwriaethau clwb nofio Bangor ac yng nghala nofio'r Urdd. Cafodd nifer o fedalau mewn rasmus amrywiol yn y pencampwriaethau clwb a llwyddodd i dynnu 2 eiliad oddi-ar ei amser gorau. Llongyfarchiadau mawr Cai. Bydd rhagor o newyddion am ganlyniadau gala nofio'r Urdd yn y rhifyn nesaf.

Dilynwch ni ar trydar @Llais_Ogwan





Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

gair neu ddau

John Pritchard

NADOLIG ARBENNIG

Un peth a ddysgais y Nadolig diwethaf oedd bod y ffyrdd yn ninas Lerpwl yn gymharol dawl noson Nadolig. Ac roeddwn yn ddiolchgar am hynny.

Roedd bore'r Nadolig yn ddigon tebyg i bob bore Nadolig arall i mi. Dwy oedfa braf i ddechrau'r dydd, a nôl adref i agor rhywfaint o anrhegion yng nghwmni'r teulu. Tua chanol dydd, hel pethau at ei gilydd cyn cychwyn i Lerpwl i dŷ ein mab Gethin a'i wraig Annabel a'n hwyres fach Ella. Siwrnai hwylus iawn gan mor ysgafn oedd y traffig. Cyrraedd Lerpwl felly mewn llai o amser nag arfer. Cinio Nadolig hwyr, a digon o fwyd a phawb mewn hwyliau da. Ymlacio efo'r teulu a'r teganau a'r teledu a rhagor o'r twrci: noson Nadolig hamddenol braf.

Ond yna'r daith annisgwyl. Os cofiaf yn iawn, roedd hi'n tynnu at un ar ddeg o'r gloch arnom yn gadael y tŷ. Doedd hi ddim yn siwrnai hir. Pedair neu bum milltir ar y mwyaf. Doedd yna fawr o neb arall ar y lôn. Ond er y brys, doedd dim modd gwibio gormod oherwydd yr holl gamerâu cyflymder a'r ponciau arafu. Wnes i ddim colli'r ffordd, diolch am hynny, ac mi gyrhaeddwn ni'n ddiogel o fewn rhyw ddeng munud neu chwarter awr. Mi gymerodd y daith o'r car i'r ward fwy o amser na hynny. Yno, wrth ddrws y ward, y gadewais i'r ddau.

Wedi dod o hyd i gadair esmwyth yng nghyntedd yr ysbyty, mi eisteddais i ddarllen y nofel oedd gen

i ym mhoced fy nghot. Ond o fewn ychydig dudalennau, mi ganodd y ffôn. Doedd hi ddim eto'n hanner nos, ac roedd y babi wedi ei eni. Flwyddyn yn ddiweddarach, rydw i'n dal i ddiolch i Dduw ein bod wedi cyrraedd diogelwch yr ysbyty mewn pryd, ac mai yno, ac nid ar y ffordd, y ganwyd Joseff.

Gwahanol iawn, a phellach o lawer oedd taith y Joseff arall hwnnw a Mair o Nasareth i Fethlehem. Doedd ganddyn nhw ddim car i'w cludo. Doedd yno ddim ysbyty modern, glân na hyd yn oed westy cysurus, i'w croesawu. Wyddom ni ddim am ba hyd y bu'r ddau yn y dref cyn i'r babi gael ei eni yn y lle'r arferid cadw'r anifeiliaid. Ond gallaf ddychmygu bod y rhyddhad a'r llawenydd a brofodd y ddau yn debyg i'r hyn y mae rhieni newydd ym mhob oes yn ei brofi.

Do, fe gawsom ni noson Nadolig cwbl arbennig y llynedd. Ond ar fy ffordd o'r ysbyty'r noson honno, welais i ddim arbennig. Mor wahanol y Nadolig cyntaf a'r cyhoeddiad a wnaed i'r bugeiliaid fod Ceidwad wedi ei eni, sef y Crist y bu pobl yn disgwyl amdano ers canrifoedd. Nid teulu bach, ond byd cyfan, oedd yn llawenhau yn ei ddyfodiad ef. Ac eleni eto, bydd miliynau o bobl ar draws y byd yn llawenhau o'r newydd wrth ddathlu geni'r plentyn bach Iesu a ddaeth yn Waredwr i bawb sy'n credu ynddo ac yn ei garu.

Nadolig Llawen iawn i chi.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Manteisio ar gyfle i feddiannu’n anonest. (6)
- 4 Mynwes (barddonol) (7)
- 9 Cael hyd i rywbeth neu syniad (9)
- 10 “Nid yw’r ----- heno’n malu” (Crwys) (5)
- 11 Un o freichiau trol (4)
- 12 Ffrind Morus a daflodd fy nghap i fan budur iawn (4)
- 13 Amgyffred (4)
- 16 Gwneud yr hyn a ddisgwylir ; bihafio (7)
- 18 Heb neb na dim arall (6)
- 20 Math o stori codi ofn (6)
- 22 Digio wedi llithro mewn lle mwdlyd (7)
- 25 Nerth a bôn braich (4)
- 26 Un giât a dwy giât, ond mae’r bwlch yr un o hyd (4)
- 27 Byddwch yno yn India neu Siapan (4)
- 31 e.e. Aur neu Arian (5)
- 33 Arf Arthur frenin, nid Aled! (9)
- 34 Un o blasau’r chwareli (1,6)
- 35 Enw mewn llawysgrifen (6)


I LAWR

- 1 Rhai tân sydd gan y gelyn yn ôl emyn “I bob un sydd ffyddlon” (7)
- 2 e.e. Rhys Meirion (5)
- 3 Fel 1 Ar Draws efallai (4)
- 4 Tynnu’r garafan oddi ar gefn y car (7)
- 5 Awydd cryf (4)
- 6 Rhan mewn drama (3)
- 7 Dyffryn y Mabinogi (6)
- 8 Saith yn y bwa (6)

- 14 Llun wyneb sy’n drist, sy’n hapus, sy’n crïo neu’n chwerthin ar waelod e-bost (5)
- 15 Un o’r 50 talaith dros yr Iwerydd (4)
- 17 ‘Faint o saint ar Enlli sydd?’ gofynnai’r cynganeddwr. Wel sawl mil beth bynnag (5)
- 19 Ia, i’th ddeall, – dyna pam y defnyddiaf hi (4)
- 21 Un sy’n credu mewn newid y drefn yn llwyr (7)
- 22 Tref ar y gororau sy’n swnio fel tanwydd di-liw (6)
- 23 Newid ar ganol gwragedd y cwfen i edrych ar ôl pethau (7)
- 24 Yr Ysgwrn, Dolwar Fach neu Bantycelyn (6)
- 28 Murmur ysgafn sy’n galw’r ferch (5)
- 29 Dymunol a hoffus (4)
- 30 Y ffordd odia’ i gael dau a dau i wneud pedwar (4)
- 32 “ --- Bethlem dref, Awn yn fintai gref ” (carol) (3)

ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2017

- AR DRAWS 1 Ymhellach, 5 Myllio, 8 Gwisg, 9 Analluog, 10 Lleuad Fedi, 12 Dyn, 13 Tua’r Ne, 14 Dyfalu, 17 Bib, 18 Llysgennad, 20 Gwylwyr, 21 Tegid, 23 Letys, 24 Dinoethi
- I LAWR 1 Ysgall, 2 Hei/Hoi, 3 Llygedyn, 4 Chwaneg, 5 Miami, 6 Lleuad Lawn, 7 Organau, 11 Uchafbwynt, 13 Tebygol, 15 Ymestyn, 16 Ysbryd, 18 Llawes, 19 Di-doi, 22 Gwe



Gan ei bod hi bron yn Nadolig, rydw i am roi maddeuant i nifer ohonoch chi y tro yma am wall gramadegol. Enw benywaidd ydi ‘lleuad’, felly ‘Lleuad Fedi’ a ‘Lleuad Lawn’ sy’n gywir, nid ‘Lleuad Medi’ na ‘Lleuad Llawn’ fel a gafwyd gan sawl un. Yn anffodus yr oedd un cynnig wedi rhoi ‘Lleuad Llawn’ yn ateb i’r ddau gwestiwn. Dyma’r rhai anfonodd atebion cywir:

- John H. Evans, Llanberis; Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Tregarth;
- Elisabeth M. Roberts, Penrhyndeudraeth; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Gwenda Roberts, Rhosmeirch;
- Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gareth William Jones, Bow Street; Dilys Wyn Griffith, Abergele;
- Gwilym a Barbara Owen, Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan;
- Karen a Tom Williams, Llanllechid; Doris Shaw, Bangor; Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont.
- Dilys Parry, Rhiwlas

Yr enw cyntaf o’r het i ennill y wobr oedd cynnig Elizabeth Buckley, 32 Maes Ogwen, Tregarth, Gwynedd LL57 4NG. Llongyfarchiadau i chi.

Mae croesair y mis yma ychydig yn fwy nag arfer gan ei bod hi’n Ddolig. Gobeithio y cewch i gyd wyliau wrth eich bodd, heb air croes! Atebion erbyn **3 Ionawr**, 2018 i ‘Croesair Mawr y Nadolig’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Atebion erbyn 3 Ionawr, 2018 i ‘Croesair Ebrill’
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

.....

Cyfeiriad

.....

.....

.....

.....



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Ysgol Llanllechid

Llythyr Dafydd

Un bore ym mis Tachwedd, atebodd Ms Leanne y ffôn, a phwy oedd y pen arall ond Mr John Glyn, ewythr Dafydd a Danial Jones! Ymateb oedd Mr Glyn i lythyr oedd wedi cael ei anfon ato gan Dafydd, yn gofyn iddo ymweld â'r ysgol yn rhinwedd ei swydd fel cyfarwyddwr ar raglen Byd Adar, Iolo Williams. Diolch yn fawr i Daniel am ysgrifennu'r llythyr! O ganlyniad i'r llythyr, cawsom gyflwyniad bendigedig yn neuadd yr ysgol gan Mr Glyn ar arferion ein hadar a'u cynefinoedd.

Gwobrau Ffotograffiaeth Bywyd Gwyllt Prydain 2017
Enillydd categori Dan 12: Oliver Teasdale, Ysgol Llanllechid. Ym mis Mai 2017, ymwelodd Ollie ag Ynys Sgogwm, oddi ar Arfordir Sir Benfro, gyda'i Dad am wythnos o wyllo adar a ffotograffiaeth lle llwyddodd Ollie i dynnu

lluniau o'r aderyn pal. Mae'r gystadleuaeth genedlaethol hon yn dathlu pryderthwch ac amrywiaeth bywyd gwyllt Prydain. Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn y Mall Galleries, Llundain ar 8fed Tachwedd 2017. Ymddangosodd darlun Ollie yn y Sunday Times. Mae pawb ohonom yn Ysgol Llanllechid yn dymuno'n dda ac yn llongyfarch Ollie i'r cymylau ar ei lwyddiant!

Y Brodyr Gregory

Well! Dyna amser braf a gawsom yn y neuadd yng nghwmni'r Brodyr Gregory a Sian Beca o Rownd a Rownd. Digon o hwyl a sbri a wynebau ein plantos yn werth eu gweld! Cafwyd caneuon doniol ac actio gwydch, a hynny hefyd gan aelodau o'r staff! ailgylchu, ac edrych ar ôl ein hamgylchedd, a throsoglwyddwyd negeseuon pwysig drwy'r perfformiadau pwerus!

Plant Mewn Angen a Bocsys Nadolig

Diolch yn fawr i bawb am gefnogi Plant Mewn Angen. Codwyd £328.71 at yr achos da hwn. Bu'r disgyblion hefyd yn brysur yn llenwi bocsys Nadolig. Diolch i bawb.

Ffair Lyfrau

Diolch i bawb am ddod draw i gefnogi'r Ffair a diolch i Siop Ogwen am fod mor barod i ddod draw gyda'u stondin. Chewch chi ddim byd gwell na llyfr Cymraeg o Siop Ogwen yn anrheg Nadolig!

Actio, Canu a Dawnsio

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 y fraint o gymryd rhan yn yr agoriad swyddogol Llwybr Llechi Eryri yn Neuadd Ogwen yn ddiweddar. Roedd yn ddigwyddiad pwysig iawn, gydag enwogion fel Dafydd Wigley a Rhys Mwyn, ymysg eraill, yn siaradwyr gwadd; cwmni teledu yn

recordio'r holl gyffro, a dwy o'n disgyblion, sef Chenai a Mari Watcyn yn cael eu cyfweld gan Gerallt Pennant ar gyfer rhaglen HENO.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Un o brif ddigwyddiadau ar ein calendr yma yn Ysgol Llanllechid yw Eisteddfod Dyffryn Ogwen! Unwaith eto eleni, fe heidiodd plant yr ysgol draw i Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen i gystadlu. Daeth cant a mil o wobrau i'n hysgol a llongyfarchiadau i bob copa walltog fu ar y llwyfan, o'r ieuengaf i'r hynaf. Yr un yw ein llongyfarchion i'r rhai gafodd lwyddiant gyda gwaith celf a chrefft a llenyddiaeth. Diolch i bawb fu'n hyfforddi a diolch arbennig i Mrs Helen Williams, ac i Mrs Menai Williams a ddaeth i gyfeilio i'n côr buddugol! Gweler gwefan Ysgol Llanllechid am fwy o fanylion: ysgolllanllechid.org

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Trefn Oedfaon:
Rhagfyr 17: Parchg. Cledwyn Williams.
Rhagfyr 24: Gwasanaeth Nadolig.
Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Colli Aelodau

Cafodd yr eglwys golled fawr pan fu farw dau o aelodau ffyddlon y capel.
Bu farw Mrs. Sheila A. Williams, Capel Curig, yn dawel yn Ysbyty Llandudno ar 22 Tachwedd wedi salwch blin. Priod annwyl Mr. Emlyn Williams, mam garedeg i Gwynfor, Bryn a Mai a nain hoffus i Katie, Gareth a Gavin. Roedd yn chwaer fawr i Selwyn a'i deulu yn Rachub, Glynys a'r teulu, Tregarth, Eifion a'r teulu, Llandudno, a'r diweddar Carol a Brenda. Cafodd ei magu yn y Gerlan, yn ferch i'r diweddar Mr. a Mrs. Norman Jones.
Wedi gadael yr ysgol bu'n

gweithio mewn siop ym Mangor. Priododd yng nghapel y Gerlan yn 1961, a symud i fyw i ardal Capel Curig cyn dod yn aelod ffyddlon yng nghapel bach Nant y Benglog. Bu hefyd yn aelod o Sefydliad y Merched a'r Clwb Cerdded.
Cynhaliwyd yr angladd yn Amlogfa Bangor ddydd Gwener, 1 Rhagfyr, gyda'r Parchedig Helen W. Jones, Llanrwst a Mr. Arwel Roberts, Dyserth yn gwasanaethu. Cyflwynwyd teyrnged arbennig i Sheila gan ei brawd yng nghyfraith, Mr. Noel Williams. Mrs. Christine Edwards oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu yn eich colled fawr.
Bu farw Mr. Robert Thomas, Betws y Coed, yn Ysbyty Gwynedd ar ddydd Mercher, 29 Tachwedd. Roedd yntau yn aelod ffyddlon o Gapel Nant y Benglog. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs. Dilys Thomas a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.



Siân Gwenllïan

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

GWASANAETH GLANHAU HUGHES

5 Pant Caerhun, Bangor, LL57 4DS (Y cwmni glanhau tu allan cyflawn)

Glanhau ffenestri: Golchi landeri, facsias a soffits.
Gwagio landeri gyda Sky Vacs a CCTV
Golchi 'meddal' - patios, "decking" a llwybrau
Golchi toeau ystafelloedd gwydr

Gofynnwch am Nicky ar 01248 355908 neu 07999 376250
pamela-stwnch@hotmail.co.uk



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir: Elfed Bullock, Bethesda; Myfanwy Jones, Gaerwen; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gwilym a Barbara Owen, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch. **Enillydd Tachwedd oedd:** Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon, LL54 7HN.

S4C **Cyw**

Canu a dawnsio gyda Cyw a'i ffrindiau!

Y Brif Theatr Dydd Sul 14.01.2018

10.00 Sioe Cyw

11.30 Sioe Cyw

1.30 Sioe Cyw

3.00 Canu a dawnsio gyda Cyw

Llwyfan y Neuadd

Archeba docyn am £1
01492 872000 venuecymru.co.uk

f t i

s4c.cymru/cyw

Ysgol Llandyngái

Llongyfarchiadau – Y Wobr Aur
Cawsom glywed fod yr ysgol wedi ennill Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd am yr ail flwyddyn yn olynol. Diolch i holl ddisgyblion ac aelodau y staff a'r gymuned ddysgu ehangach am eu gwaith i sicrhau fod yr iaith i'w chlywed ymhob rhan o'r ysgol. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei llunio ar gyfer y flwyddyn hon ac mae gan y disgyblion syniadau newydd a ffres fydd yn hybu ac annog ein disgyblion i fwynhau cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg.

Llongyfarchiadau – Y Wobr Efydd
Braf oedd cael llongyfarch y disgyblion ar ennill Y Wobr Efydd Sustrans. Rydym wedi bod yn cydweithio yn glos gyda Gwen Tomos-Swyddog Teithio Iach.
Cafwyd nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Daeth y doctor beics atom i ddysgu'r disgyblion sut i edrych ar ôl eu beiciau. Cawsom ddwy wythnos 'Cerdedd i'r ysgol'. Derbyniodd Blwyddyn 6 hyfforddiant seiclo yn ogystal â chystadleuaeth addurno beic. Roedd yr holiadur roddwyd i'r disgyblion ar ddechrau a diwedd y flwyddyn yn dangos cynnydd yn y defnydd o feiciau i deithio o un man i'r llall ac mae hynny yn newyddion cadarnhaol.

Diolch
Cawsom ddiwrnod llawn bwrlwm wrth godi arian at elusen Plant Mewn Angen. Daeth y disgyblion i'r ysgol wedi gwisgo mewn smotiau ac roedd rhai aelodau o'r staff wedi gwisgo fel eu harwyr. Cawsom wyllo ffilm yn y 'sinema' ac roedd stondiau amrywiol yn neuadd yr ysgol drwy'r bore-y cyfanswm oedd £361-25.

Newyddion o'r Dosbarthiadau
Dosbarth Tirion
Mae disgyblion y dosbarth yn dysgu am Yr Ail Ryfel Byd y tymor yma ac fel rhan o'r gwaith daeth y cwmni 'Sioe Mewn Cymeriad' i'r ysgol i roi perfformiad am Y Blits. Roedd y disgyblion yn chwarae rhan weithredol yn y cyflwyniad ac roedd yr ymateb yn hynod o frwdfrydig – hyn yn dangos eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o hanes y wlad yn ystod y rhyfel erchyll hwnnw.

Dosbarth Awel
Daeth awdures o Fflorida oedd yn yweld â theulu yn yr ardal draw i'r dosbarth i ddarllen rhai o lyfrau cyfres The Jack Cat-Rhyming Stories. Dysgodd y disgyblion am Fflorida lle roedd prif gymeriad ei llyfrau yn byw yn ogystal a gwrando ar straeon yn llawn hiwmor.

Dosbarth Hedd
Fel rhan o thema Teithio – Patagonia, daeth Gethin Griffiths draw i weld y disgyblion i adrodd ei hanes yn ymweld â'r wlad honno gyda'r Urdd. Roedd Gethin wedi synnu pa mor aeddfed oedd ymateb y disgyblion ac

roedd wrth ei fodd yn ateb y llu cwestiynnau ofynwyd iddo am ei daith.

Dosbarth Gwawr
Cawsom y pleser o gwmni Morgan Tomos-awdur cyfres Alun yr Arth yn ddiweddar.
Roedd y disgyblion wedi edrych ymlaen yn arw i'w glywed yn darllen Alun yr Arth a'r Ddraig Fach Goch gan mai Dreigiau yw thema y dosbarth.
Cawsant hwyl yn cynllunio stori newydd sbon gyda'r awdur a bydd eu gwaith i'w weld ar wefan yr awdur yn fuan – cyffrous!

Wythnos Fathemateg
Diolch i'r cydlynwyr mathemateg am eu gwaith caled i sicrhau wythnos lwyddiannus. Cawsom gyfle i ddatrys problemau wrth chwarae gemau mathemateg ynghyd â chymeryd rhan mewn gweithgareddau torfol oedd wedi eu trefnu gan Techniquet. Hefyd, daeth rhieni i wrando ar gyflwyniad gan y cydlynwyr yn esbonio cynlluniau gweithredu yr ysgol yn y maes ac hefyd cawsant hwythau hwyl am rhesymu wrth chwarae y gemau.

Sioe Trefi Taclus
Cawsom brynhawn yn llawn cyffro yng nghwmni Y Brodyr Gregory. Roeddent yn cyflwyno sioe oedd yn pwysleisio pa mor bwysig yw ail gylchu a chadw ein penttefi yn lân. Diolch i Adran Trefi Taclus Cyngor Gwynedd am y cyfle i fwynhau drwy ganu a dysgu neges bwysig iawn yn yr un modd.

Diwrnod Gwrth-Fwlio
Fel rhan o brosiect arbennig Llysgenhadon Gwych Sally Holland Comisiynydd Plant Cymru cawsom wrando ar aeolau Y Cyngor Ysgol yn cyflwyno neges oedd yn pwysleio pa mor bwysig ydi bod yn hapus yn yr ysgol. Aethant ymlaen i sôn am beth yw'e camau i wneud pan yn teimlo yn drist neu yn ddigalon neu hyd yn oed pan mae rhywun yn cael eu bwlio.Yn dilyn- cafodd disgyblion yr ysgol gyfle i ofyn ac ateb cwestiynnau er mwyn cadarnhau dealltwriaeth pawb o'r camau.

Dathliadau'r Nadolig
Bydd Sioe Nadolig yr ysgol gyfan yn Neuadd Ogwen Rhagfyr 12 am 6 o'r gloch – sioe PANTOLIG. Edrychwn ymlaen at berfformiad bythgofiadwy eto eleni.

Diolch
Diolch o waelod calon i'r holl wirfoddolwyr darllen sydd yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol er mwyn cefnogi disgyblion wrth ddarllen testun a thrafod y cynnwys. Diolch yn fawr ac fe'ch gwelwn ar ôl y gwyliau!
Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i ddisgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr Ysgol Llandyngái ac i holl drigolion yr ardal.

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Llandyngái yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc cyn 31 Rhagfyr 2017

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Llandyngái,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandyngai@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Bethesda yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc cyn 31 Rhagfyr 2017

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Llandyngái,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandyngai@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc cyn 31 Rhagfyr 2017

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Llandyngái,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandyngai@ogwen.org



Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Newyddion

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnig cyfyngiad cyflymder o 40 m.y.a ar ffordd Llwyn Bleddyn rhwng Bryn Bella a Maes Bleddyn, ac mae cyngor Bethesda wedi'i gymeradwyo.

Profedigaeth

Bu farw Julie Rowlands, 3 Tan y Garth, Rachub, (Julie 44) yn 73 oed a chynhaliwyd ei chynhebrwng ar Dachwedd 21ain yn Eglwys Glanogwen gyda rhoddion at Tŷ Gobaith. Cydymdeimlwn â'i meibion Nigel, Mark a Colin, a'r teulu i gyd. Cofiwn Julie Rose am ei gwaith gyda'r Majorettes, Taxis, crempogau a'i chyfraniad at y boreau coffi .

Noson Tan Gwylt

Cafwyd dipyn o gyffro yn Rachub a Llanllechid ar noson tân gwylt, gydag o leiaf pum coelcerth wedi'i thanio! Roedd coelcerth Maes Bleddyn yn werth ei gweld wrth gwrs, a phawb wedi cyfrannu'n hael i Gordon fedru rhoi clamp o arddangosfa dda unwaith eto lenni, gyda help hogia'r stad i gario'r stwff ar ben y goelcerth. Cafodd Llwyn Bedw hwyl yn llosgi dwy goelcerth a thanio sawl roced, mewn cystadleuaeth efo rocedi Llanllechid! Mae'n braf gweld trigolion y gymuned yn mwynhau gyda'i gilydd, a gwneud hynny'n gyfrifol hefyd.

Noson Calan Gaeaf

Bu sawl gwrach, ysbryd a zombi yn crwydro strydoedd yr ardal nos calan gaeaf. Diolch blant am wneud ymdrech i edrych yn frawychus, wrth ymddwyn yn foneddigaidd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Ceri a Lee Evans, 23 Ystad Coetmor, Bethesda ar enedigaeth

eu merch fach, Nansi Grace ar Dachwedd 7fed. Mae Ela Grace wrth ei bodd efo'i chwaer fach. Diolch i bawb am yr anrhegion a'r caredigrwydd.

Llongyfarchiadau hefyd i'r ddau Daid a Nain balch sef Tom a Karen, Henbarc a Keith a Jackie, Penybryn. Heb anghofio'r ddau Hen Daid, Owi Williams, Maes y Garnedd a Gwilym Rees Evans, Ceunant a hefyd i Hen Nain Bangor sef Sylvia Jones Maesgeirchen.

Ffair Llan

Do, fe ddaeth y ffair eto lenni gyda'i goleuadau a'i danteithion lu. Mae'n ddigwyddiad llawn cyffro i bobl yr ardal, ac wynebaw'r plant yn werth eu gweld ar y reids. Gobeithio fod pawb wedi mynd adre'n hapus, er y pocedi gwag!

Rhodd

Diolch yn fawr iawn i Gwilym Rees, Karen, Tom a'r teulu am eu rhodd hael i'r Llais er cof am Mr William John Evans 15, Ffordd Llanllechid, (Helpar Sion Corn) a Mrs Glenys Evans Ceunant Llanllechid.

Cyfarchion Nadolig

Ni fydd Gwilym Rees Ceunant Llanllechid yn anfon cardiau Nadolig eleni. Hoffai ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion at Geraint Jones, Royal Oak sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers peth amser. Brysia wella Ger.

Diolch

Dymuna Sandra, Sheila a Stella ddiolch i Glwb Criced a Bowlio Bethesda, Hogia'r Bonc a holl drigolion ardal Bethesda a thu hwnt am eu cefnogaeth a haelioni tuag at y noson caws a gwin a gynhaliwyd yn ddiweddar. Bu'n noson lwyddiannus iawn a chasglwyd £1900 at Ward 8 Ysbyty Plant Birmingham, lle derbyniodd Morgan Hughes o Dregarth drawsblaniad. Dyma

Morgan yn cyflwyno'r siec. Diolch o galon i bawb.

Y Byd Athletau

Daeth y tymor cystadlu i ben yn yr Hydref, tymor a welodd Natalie Owen, 14 mlwydd oed, a'r teulu yn teithio'n gyson i gystadlu yng nghystadlaethau'r Ddisgen, Y Waywffon, y Shot a'r belen drom. Bu'n teithio i wahanol lefydd fel Lerpwl, Warrington, Wrecsam, Caerdydd, Manceinion ymysg nifer o lefydd eraill. Dyma'r tymor cyntaf iddi gystadlu dan yr oedran dan 15 mlwydd oed. Er iddi brofi nifer o lwyddiannau teimlai mai tymor i ddysgu ac i osod seiliau ar gyfer y tymor newydd oedd y tymor diwethaf ac mae hi'n edrych ymlaen at ddechrau'r tymor yn y Gwanwyn.

Ond nid oes amser i ymlacio i Natallie, er i'r tymor orffen mae hi'n dal i ymarfer yn galed. Sesiynau wythnosol yng Nghampfa The Pub ar Ffordd Deiniol ym Mangor gyda'r hyfforddwr codi pwysau Ian Chaffey yn ei rhoi ar ben ffordd. "Datblygu'r cyhyrau fydd nod dros y Gaeaf," meddai Natalie. I sicrhau hyn mae'n mynychu sesiynau wythnosol yng Nghampfa The Pub ar Ffordd Deiniol ym Mangor gyda'r hyfforddwr codi pwysau Ian Chaffey yn ei rhoi ar ben ffordd. Yn ogystal â'r sesiynau yma bydd yn teithio bob yn ail wythnos i Lannau Dyfrdwy lle caiff ragor o hyfforddiant gan un o hyfforddwyr Athletau Cymru, Dennis Doyle. Profiad anhygoel iddi.

Mae'r teulu am ddiolch am bob nawdd a gawsant gan gwmnïau ac unigolion dros y tymor diwethaf ac yn holi os oes gan unrhyw un ddiddordeb i noddi Natalie ar gyfer y tymor nesaf. Gallwch gysylltu â hwy ar 01248 602823.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Selwyn ac Ann, Bron Arfon a'r teulu oll ar achlysur trist o golli chwaer i Selwyn, Sheila yng Nghapel Curig. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor ar Ragfyr 1af.

Hefyd anfonwn gofion at Robin a Rhian, Bron Arfon ar achlysur colli modryb i Robin ym Mangor.

Diolch

Dymuna Ann a Selwyn ddioch o galon i bawb am y cardiau, geiriau caredig a rhoddion. Bu farw Sheila, chwaer Selwyn yn ystod mis Tachwedd.

Llais y Lli

Darlledwyd ffilm animeiddiedig o'r enw 'Llais y Lli' ar S4C yn ystod mis Tachwedd, yn adrodd hanes bachgen a'i chwaer fach sy'n mynd ar daith hir trwy fyd hud, llawn hen chwedlau. O wrando'n astud ar y lleisiau, efallai i chi adnabod rhai ohonynt

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Ar nos Iau, 9 Tachwedd, cynhaliwyd arddangosfa gan gwmni Tropic (colour). Cafwyd gair o croeso gan yr is-gadeirydd, Iona Jones, ac wedi'r arddangos cafwyd cyfle i brynu nwyddau, ac yna lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor. Roedd y noson wedi ei threfnu gan Mrs. Dorothy Hughes. Gwnaed elw o £150.00.

Hefyd, ar ddydd Gwener, 24 Tachwedd, bu rhai o'r aelodau yn casglu arian mewn dau leoliad sef Pringles, Llanfairpwll a

Siop y Co-op, Llanfairfechan. Diolch i'r casglwyr am eu gwaith.

Yna, ar nos Sul, 26 Tachwedd, cafwyd noson o ganu "Gospel" yng nghwmni "Elvis", sef y Parchg. Wynne Roberts. Noson ardderchog! Joe Hughes, y cadeirydd, estynnodd groeso i bawb ar y dechrau, gyda Jean Price yn diolch i bawb ar y diwedd. Diolch i aelodau'r pwyllgor am baratoi lluniaeth unwaith eto. Roedd cyfanswm y casgliad yn £250.00.



- gan fod y rhan fwyaf o'r cast yn dod o'r ardal hon! Yn lleisio'r cymeriadau roedd Cian Rhys, Lisa Jên, Gwenno Hodgkins a Gwenno a Gruffudd Beech! Mae'n siŵr o gael ei ail-ddarlledu dros y Nadolig os ydych am ei gwyllo bryd hynny!

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau
Rhagfyr 17: Gwasanaeth Nadolig (4.00yp)
Rhagfyr 24: Gweinidog (4.00yp)
Rhagfyr 31: Oedfa (5.00yp)
Ionawr 7: Gweinidog (Cymun am 5.00yp)
Ionawr 14: Parchg. Dewi T. Morris (2.00yp)
Ionawr 21: Cyfarfod Gweddi. (5.00yp)
Ysgol Sul am 10.30 yb.
Clwb Dwylo Prysus, Nos Wener am 6.30yh.

Salwch

Mae dau o'n haelodau yn yr ysbyty ym Mangor ac anfonwn ein cofion atynt, sef: Mr. Geraint Jones, Ffordd Tanybwlech/ Royal Oak a Mrs. Buddug Hughes, Ffordd Carneddi. Anfonwn ein cofion hefyd at

aelodau sy'n sâl gartref, sef: Mrs. Phyllis Evans, Plas Ogwen; Mrs. Dora Williams, Bron Arfon; Mrs. Betty Jones, Tanybwlech; Mrs. Violet Williams, Cartref y Foelas; Mr. a Mrs. Thomas a Heddwen Jones, Rhos y Coed; Mrs. Phyllis Parry, Ffordd Ffrydlas.

Yr Ysgol Sul

Fore Sul, Tachwedd 19, daeth y plant i'r Ysgol Sul gan sôn am yr hwyl redden nhw wedi ei gael yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ar y pnawn Sadwrn.
Bu dosbarth meithrin yr Ysgol Sul yn llwyddiannus hefyd, gan ddod yn ail yn yr Adran Gwaith Llaw! 'Roedden nhw wedi gwneud murlun mawr gyda Mrs. Helen Roberts, o ffrindiau Iesu Grist yn pysgota ar fôr Galilea, gyda'r Iesu ar lan y môr yn galw arnyn nhw i ddod ato.
Mae'r plant a'r bobol ifanc yn brysur ar hyn o bryd yn ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig fydd yn cael ei gynnal ar Ragfyr 17 am 4 o'r gloch. Bydd croeso mawr i bawb ymuno hefo ni!



Dyma'r plant a fu'n cystadlu. 'Roedd rhai ohonyn nhw wedi dod â'r medalau a gawson nhw am ennill i ddangos i ni. Da iawn chi blant! Diolch i'r athrawon a fu'n gweithio gyda nhw yn yr ysgol gynradd yn Llanllechid!



Cig Eidion â Guinness

700g o gig eidion (wedi ei dorri'n barod -yn Aldi).
¾ can o stowt.
2 nionyn a ½ cenhinen (wedi ei thorri'n fras).
4 moronen fawr a ½ rwdan (y moron a'r ½ rwdan yr un pwysau).
10 ffeuen Ffrengig fach.
10 pysen *sugar snap* (wedi eu haneru).
2 ewin garlleg.
Halen a phupur du (rhyw lond llwy de bob un).
1 ciwb oxo mewn peint o ddŵr.
2 lwy fawr o flawd.

Ffriwch y nionod + cenhinen + garlleg yn ysgafn (mewn sosban ddwfn a thrwm) ar wres isel. Ar ôl hanner ei wneud, rhowch o ar wahân mewn powlen.
Trowch y gwres yn uwch a ffrio'r darnau o gig (a'u troi'n aml) nes iddynt frownio (rhyw 5 munud). Ychwanegwch y nionod, 1 foronen wedi ei gratio a'r gweddill wedi eu torri, a hefyd y rwdan.

Troi'r gwres yn is, ychwanegu 2 lwy fawr o flawd a'i gymysgu'n dda efo'r cig am 1 funud.
Ychwanegwch y stowt efo cwpan o ddŵr oer.
Ychwanegwch y pys a'r ffa, halen a phupur, a'r dŵr oxo, a'u troi'n dda efo llwy bren.
Rhowch binsiad o berlysiau ar ôl iddo ferwi.
Trowch y gwres yn isel a'i adael am tua 2 awr.
Ychwanegwch fwy o ddŵr os bydd angen.
Mae'n flasus efo sgons caws bychain.

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Ambwch (01407) 831777	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiw



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Llais Ogwan
Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan



Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS



SAMARIAID
Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

**SIOP
OGWEN**

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T
a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs,
Golwg, Llyfrau, Llundiau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr,
cofiwch am Siop Ogwen am eich holl
anghenion siopa! Galwch draw neu
rhowch ganiad i'r Siop am ragor o
wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i
Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

Ysgol Pen-y-bryn

Mewn Cymeriad

Cafwyd cyflwyniad gwych gan Llion Williams ynglŷn â thaith yr iaith. Dysgodd y plant lawer am y brwydrau sydd wedi bod gyda'r iaith a hynny mewn ffordd hwyliog.

Sboncen

Daeth Steph o Blas Ffrancon i'r ysgol i roi sesiwn o sboncen i bob dosbarth. Roedd pawb wedi mwynhau ac yn edrych ymlaen at wersi sboncen ym Mhlas Ffrancon. Diolch, Steph!

Disgo'r Urdd

Bu dawnsio brwdfrydig yn nisgo'r Urdd a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Diolch o galon i'r staff aeth gyda hwy, diolch i'r Urdd am drefnu a diolch i Ysgol Dyffryn Ogwen a'r disgyblion a fu'n helpu yn y siop.

Disgo Calan Gaeaf

Cafwyd disgo llwyddiannus dros ben, gyda phawb wedi mynd i ymdrech gyda'i gwisgoedd. Yn wir, roedd rhai yn codi ofn ar bawb! Diolch yn fawr iawn i'r rheini a fu'n helpu; rydym yn gwerthfawrogi'n fawr.

Ffair Lyfrau

Daeth ffair lyfrau Book People i'r ysgol. Dyma'r tro cyntaf i ni



gynnal un Book People ac roedd yn llwyddiant. Bu llawer o'r plant yn prynu gwahanol lyfrau ac mae'n braf yn eu gweld yn eu darllen yn y dsobarth.

Noson rieni

Cafwyd nosweithiau rhieni llwyddiannus eto elei gyda

chanran uchel o'r rhieni yn mynychu. Roedd yn gyfle euraid i'r rhieni weld gwaith eu plant a thrafod cyrhaeddiad a thargedau'r plant. Diolch am eich cefnogaeth.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Bu Eisteddfod Dyffryn Ogwen

yn llwyddiant unwaith yn rhagor. Mor braf oedd gweld gymaint o'n plant ni'n cystadlu ac yn llwyddo. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch. Da iawn i'r Parti Llefaru, y ddau barti deulais a'r côr. Llongyfarchiadau gwresog i Rhiannon am dderbyn y wobr perfformiad mwyaf addawol gyda llefaru a'r wobr am y perfformiad cerddorol gorau. Diolch i'r staff a fu'n hyfforddi a chefnogi'r plant.

Gala Nofio'r Urdd

Ar for Tachwedd 19eg, bu rhai'n codi'n gynnar ym Methesda ac ymlwybro tuag at bwl nofio Bangor ar gyfer Gala Nofio'r Urdd. Roedd aelodau tîm nofio'r ysgol o ddosbarth Carnedd yn cystadlu'n y bore. Nofiodd bawb yn ardderchog a llwyddodd Gruff i gyrraedd y ras derfynol yn y gystadleuaeth nofio cefn. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd yn eu gala cyntaf. A diolch byth am Gethin o flwyddyn 6 oherwydd dim ond fo oedd yn cynrychioli'r ysgol yn y p'nawn pan roedd blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu. Llwyddodd Gethin i ddod yn ail yn y rasmus terfynol y gystadleuaeth broga a dull rydd. Ardderchog, wir! Hefyd, diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth a diolch i Mr Jones am fynd i gefnogi hefyd.



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda ☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

Ysbyty
Dymuniadau gorau i Jean Hughes, 3. Talybont sydd wedi treulio pythefnos yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, ac i John Ishmael, 5 Bro Emrys, yntau hefyd, wedi bod yn yr ysbyty.

Mae Rose Thomas, 16 Dolhelyg, yng Nghartref Ceris Newydd ar hyn o bryd.

Yr ydym yn meddwl amdanoch i gyd, ac yn dymuno gwellhâd buan i chi.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu 48 Bro Emrys, sef Tracey, Graham, Chloe ac Emily, ar eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, sef Mrs. Maureen Williams, oedd yn byw yn Hiracl.

Diolch
Dymuna Tracey a’r teulu, 48 Bro Emrys, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, ymweliadau a charedigrwydd tuag atynt pan gollodd Tracey ei mam ddechrau Tachwedd.

Diolch yn arbennig i’r ymgymrwyr, H. O. Davies, am eu gofal a’u trefniadau trylwyr, ac i’r Parchedig Ddr. Huw John Hughes am arwain y gwasanaeth mor annwyl a theimladwy. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at y swm o £400.00 i’r “British Heart Foundation”.

Eglwys Sant Cross
Gyda thristwch, daeth y newydd am farwolaeth Grace Griffiths, gynt o Lwyn y Wern, Talybont, yn naw deg mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd ar y 23ain o Dachwedd yn Eglwys Sant Cross, lle bu’n aelod ffyddlon a gweithgar am flynyddoedd lawer.

Arweinwyd y gwasanaeth gan y Ficer, y Parchedig John Matthews, gyda Lliwen Foster, perthynas i Grace, wrth yr organ. Hoffai’r teulu ddiolch i’r

Parchg. John Matthews am wasanaeth hyfryd ac ysgafn.

Diolch hefyd, i staff Fairways Newydd am eu gofal a’u caredigrwydd drwy gydol salwch Grace.

Dymuna Gareth, Marian a Meirion ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl, nain a hen-nain arbennig iawn.

Capel Bethlehem
Oedfaon
Rhagfyr 17: Oedfa Nadolig i’r teulu yng nghwmni plant yr Ysgol Sul. Gwneir casgliad tuag at Apel Nadolig Cymorth Cristnogol. Wedi’r oedfa bydd paned i bawb – a the parti i’r plant.

Rhagfyr 24: dim oedfa heddiw; Rhagfyr 31: Parchg. R. O. Jones, Gaerwen; Ionawr 7: Parchg. W.H. Pritchard; Ionawr 14: Gweinidog; Ionawr 21: Parchg. D. Lloyd Hughes, Caernarfon.

Oedfaon am 2 o’r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Bwrlwm
Daeth blwyddyn y Bwrlwm i ben ar ddydd Iau, 30 Tachwedd, gyda’r dynion yn gofalu am y banad a’r mins peis! Penderfynwyd rhannu swm o £450.00 rhwng 5 elusen, sef £90.00 yr un i Ambiwylans Awyr Cymru, Hosbis yn y Cartref, Tŷ Gobaith, Hosbis Dewi Sant a Chyfeillion Ysbyty Gwynedd. Byddwn yn ail-gychwyn Bwrlwm ar brynawn Iau, 11 Ionawr 2018 am 2.15. Dewch atom. Cewch groeso!

Ysgol Sul
Mae Eleri, 14 Dolhelyg, wedi torri ei garddwrn chwith.. Er gwaethaf platar trwm ac anghyfforddus, mae hi wrthi’n ddygn ac yn dawel yn yr Ysgol Sul, lle mae hi, a rhai o’r cyn-disgyblion eraill o dro i dro, yn gaffaeliaid anhygoel i’r tîm. Diolch iti, Eleri am dy amynedd, a’th waith caled, a brysied y dydd pryd gei di

dynnu’r platar – cyn y Nadolig, gobeithio.

Atgofion am Grace Griffiths
(oddi wrth y teulu)
Ar 11 Tachwedd bu farw Grace Griffiths, Llyn y Wern, Talybont, yng nghartref Fairways Newydd, Llanfairpwll, a bu i Dalybont golli un o gymeriadau annwyl a phoblogiadd y pentref. Ganwyd Grace, yn ieuengaf o chwech o blant, yn Fferm Llyn Penddu, Llanllechid. Cafodd ei haddysg cynnar yn ysgol Rachub ac yna ym Fethesda.

Yn ystod y rhyfel bu hi ac Ifor yn anfon llythyrau at eu gilydd. Priododd ag Ifor ddwy flynedd ar ôl y rhyfel a buon nhw’n byw yn Water Street, Rachub, ac yno y ganwyd Gareth. Aethant ymlaen i fyw i Llyn y Wern, Talybont, ble ganwyd Marian a Meirion. Roeddynt yn mynychu eglwys St. Cross fel teulu.

Bu’n gweithio am rai blynyddoedd yn Waterworths, siop ffrwythau ym Mangor.

Roedd Grace yn halen y ddaear, ac fe ddywedodd Ifor amdani unwaith, “Mae Grace fel siwgr brown – sweet but unrefined”. Byddai croeso mawr ar aelwyd Llyn y Wern bob amser gyda Grace yn cynnig panad ac yn llawn hwyl a pharod i sgwrsio. Person cymwynasgar a charedig iawn oedd Grace a phan mewn iechyd byddai’n helpu llawer iawn o ffrindiau a chymdogion dros y blynyddoedd. Mae Marian yn cofio lawer tro pan oedd ei mam yn helpu eraill drwy ddarparu blancedi a phaned o de os oedd rhywun wedi cael damwain car yn y pentref, neu Grace yn mynd i nôl presgripsiwn i gymydog sâl yn y pentref. Dro arall, byddai’r drws bob tro’n agored i rai oedd wedi colli bws Gerlan ac eisiau lle cynnes i eistedd a chael panad.

Person oedd yn hoffi hwyl oedd Grace, ac mae gan y plant lawer o atgofion doniol. Er enghraifft, Mrs Bentley yn

cael teulu o America i aros yn ei chartref. Grace yn gwneud taffi triog a mynd a fo drosodd ar blat iddynt. Ond doedd yr Americanwyr fawr o feddwl fod hanner y taffi yn lymphiau mawr o lo. Bu chwerthin am lawer o flynyddoedd am hyn, a llawer o drafod mewn amryw o lythyrau o America. Roedd ganddi ddawn arbennig i allu chwerthin ar ei phen ei hun, e.e. pan gerddodd i fyny am gymun yn St. Cross un dydd Sul a sylwi ei bod wedi gadael un esgid ar y llawr.

Pan oedd Grace yn bur wael a’r daith yn dechrau dod i ben yng nghartref gofal Fairways Newydd, daeth Blodwen, ei ffrind pennaf, i’w gweld am y tro olaf. Yn ôl Blodwen, ni allai fod wedi cael ffarwel gwell. Wrth i Blodwen ddweud “Mi ddywedai ffarwel wrthat rwan”, “Diolch i ti am bob dim Blodwen” medd Grace. “Duwcs diolch am be dwad?” holodd Blodwen. A gyda golwg direudus yn ei llygaid, atebodd Grace, “Diolch i ti am uf**r o ddim”. Tybiwn mai ffordd Grace i ysgafnhau’r sefyllfa oedd hyn.

Ei hiwmor wedi parhau hyd y diwedd. Diolch amdani!

Babi newydd
Ar y 4ydd o Ragfyr ganwyd merch fach , Nel, i Emma a Dafydd Hughes, 18 Cae Gwigin. Mae pawb o’r teulu wrth ei bodd, yn enwedig Louie, ei hen-nain ac Anti Judith, sy’n byw yn ei hyml. Fydd hi ddim yn bell iawn i’w hen- nain arall, Doris, ddod i edrych amdani chwaith.

Dymunwn bob bendith arnoch i gyd.

Dorothy Hanks yn diolch.
Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau a’r anrhegion hyfryd a dderbynniais ar achlysur fy mhenblwydd yn 60 oed, ar y 3ydd o Dachwedd.

Diolch yn arbennig i Catrin Hobson am drefnu noson braf iawn yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy.



Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Ar y Bysys 6

Pwy oedd pwy ar y Moduron Porffor (3)

Un arall o'r gyrwyr y bûm yn cydweithio ag o oedd Glyn Campbell a oedd yn gyfaill da ac yn fwrlwm o hwyl bob amser. Ni chredaf fod y siwrnai rhwng Bethesda a Bangor drwy Dregarth a Glasinfryn bob amser wrth ei fodd; daethai'r lôn gul a throellog rhwng y Felin Hen a Glasinfryn i fod yn un o gas ffyrdd Glyn ac o dro i dro deuai'n ôl i'r garej a chyhoeddi bod rhyw gerbyd neu'i gilydd wedi bod mewn gwrthdrawiad â'i fws ar droiad dall yn y ffordd. Buan iawn y dechreuodd hogia cellweirus y bysys fedyddio'r troiad hwnnw yn 'Campbell's Corner' a Glyn yn mwynhau'r hwyl crystal â neb! Soniaf rŵan am dro trwstan a ddigwyddodd rhyngof i a Glyn.

Y Tro Trwstan

Mae'n rhaid egluro, i ddechrau, mai diesel oedd tanwydd y bysys Leyland, yr AEC, a'r Guy (y dybl-dec) ond petrol oedd tanwydd y bysys Bedford, ac felly'r Bedford bach y byddid yn ei defnyddio ar y gwasanaeth rhwng Bethesda a Bangor drwy Dregarth a Glasinfryn. Un diwrnod, a minnau'n cael panad efo rhai o yrwyr bysys Crosville yn y Cornet Buffet dros y ffordd i orsaf y bysys ym Mangor, mae'n rhaid fy mod wedi cwyno ynghylch y bws Leyland (y GUE) yr oeddwn yn ei gyrru ar y pryd, mor ara deg oedd newid gêr efo hi, yn enwedig newid i lawr o'r drydedd, dyweder, i'r ail gêr. Roedd angen dybl-di-clytsio wrth newid pob gêr (techneg nad oedd angen ei defnyddio efo ceir ac sydd wedi hen ddiplannu erbyn heddiw). A hogia' gwybodus Crosville yn fy ngoleuo'n syth ac egluro bod 'na ffordd hawdd i newid gêr efo'r Leyland, sef defnyddio"stop clutch"

i gyflawni 'racing change'. A chefais wers drylwyr i feistrolîr grefft! Glyn a minnau, rai dyddiau wedyn, efo'n gilydd ar y Leyland (tanwydd diesel, cofiwch), yn rhannu condyctio a gyrru bob yn ail. Pan oeddwn i'n gyrru, mi sylwodd Glyn fy mod yn newid gêr yn llyfn a chyflym ryfeddol (heb orfod aros rhwng pob symudiad i'r injan fod yn barod i symud o un gêr i'r nesaf). 'Sut gwnest di hyn'na?' gofynnodd Glyn mewn syndod. 'Defnyddio'r stop clutch, te!' meddwn inna, gydag awgrym yn fy llais fy mod yn synnu na wyddai'r hen Glyn am y dechneg. 'Duwadd, be' 'di hwnnw, dŵad?'. A chyda'r dirmyg yn fy llais, mynegais fy syndod nad o ddim yn dallt rhywbeth mor syml! 'Wel, d'uda wrtha i sut, ta.' medda fo. Ac mi ddangosais iddo sawl gwaith, nes iddo ddweud ei fod yn dallt be' i'w wneud yn iawn. Y diwrnod wedyn, roedd Glyn yn gweithio ar fws Bethesda drwy Dregarth i Fangor - y Bedford bach! Galwad ffôn i'r garej, Glyn wedi torri i lawr, y bws yn gwrthod symud ber! Bu'n rhaid towio'r hen Bedford bach yn ôl i'r garej a phan aeth Hugh Alun i'r afael â'r gêr-bocs, syrthiodd tameidiau allan fel dannedd babi. Oedd, roedd Glyn wedi defnyddio'r stop clutch efo bws betrol! Ac mae'n siŵr mai arna i'r oedd y bai i gyd am y trychineb, nad oeddwn wedi egluro iddo fo mai efo bws diesel yn unig yr oedd y 'tric' yn gweithio! Mi ges faddeuant gan yr hen Glyn a pharhaodd ein cyfeillgarwch.

Derbyniodd Glyn a Hilda newyddion ysgytwol o drist pan gafodd eu mab 22 oed Paul, ddamwain fawr efo'i fotor-beic heb fod ymhell o Bont y Pandy (*Halfway*) ddydd Llun, Gorffennaf 21, 1986. Bu farw o'i anafiadau bron fis yn ddiweddarach ar Awst 15.

I'w barhau



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i fis hwn

ER COF

E. J. WILLIAMS

Milwr Cyffredin 45679

Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig

A fu farw 17 - 12 - 1917

Yn 25 ml. Oed

Mewn coffadwriaeth

BUCQUOY ROAD CEMETERY,

FICHEUX

FFRAINCE

Mab Thomas R. a Elizabeth Williams

6 Williams Terr. Bethesda

WILLIAM OWEN

MERCANTILE MARINE

A fu farw 24 - 12 - 1917

Yn 39 ml. Oed

Mab y diweddar Owen a Charlotte

Owen, a gŵr Mariah Owen, (nee Davies)

Coed Hyfryd, Bethesda

(Diolch i Andre Lomozik am ei

anfon i'r Llais)

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda

Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

07967 541870

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda

600633

(symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.



Ysgol Abercaseg

Spar
Hoffai Bysedd Gwyrdd ddiolch o galon i siop Spar am gyfrannu offer garddio i'r ysgol. Rwy'n siŵr y caiff holl blant yr ysgol fudd o'u rhodd hael.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen
Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol fu'n fuddugol mewn amryw o gystadleuthau yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

Plant Mewn Angen
Gwisgodd pawb onsies a phymas ar ddiwrnod Plant Mewn Angen gan gasglu £130 tuag at yr achos. Diolch i bawb am gyfrannu.

Bocsys Nadolig
Trefnodd grŵp Ffrindiau'r Byd fod ysgol yn casglu bocsys Nadolig ar gyfer yr

elusen T4U. Casglwyd 30 o focsys, ac yn sgîl hyn dysgodd pob dosbarth ynglŷn â phwysigrwydd ewyllys da.

Dysgu am hen deganau
Croesawyd Gwenda Williams o Storiell i'r ysgol i ddangos hen deganau i'r plant. Cafwyd hwyl yn chwarae'n ofalus â'r teganau yn ogystal â dysgu am y gorffennol.

PC Beca
Daeth PC Beca i'r ysgol i sôn am lefydd diogel. Dangosodd gartŵn o blant yn chwarae o gwmpas y pentref. Tra'n gwyllo'r cartŵn dysgodd y plant na ddylent grwydro heb ddweud wrth eu rhieni, ac mai dim ond llefydd penodol fel parciau sydd yn lefydd diogel i chwarae.



Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai
Nadolig Llawen!
Fel cynulleidfia hoffem ddymuno Nadolig Llawen i bawb yn Nyffryn Ogwen. Boed bendith yr Ŵyl ar eich teuluoedd a'ch cartrefi.

Cwrs Adfent
Pob nos Fercher ym mis Rhagfyr mae tim Bro Ogwen wedi ein gwahodd i'r cwrs Adfent yn y Ficerdy Pentir am 7 o'r gloch. Mae'r olaf yn y gyfres ar ddydd Mercher Rhagfyr 21ain.

Dymuniadau gorau
Mae sawl aelod o'r gynulleidfia yn dal i dderbyn triniaeth yn yr ysbyty neu yn cryfhau ar ôl gwaeledd. Cofiwn yn ein gweddïau Hefina Chamberlain, Gwyn Edwards, Enid Gardner, Audrey McSorley.

Cydymdeimlad
Bu farw Glenys Lloyd, Porth Penrhyn yn sydyn iawn ar Dachwedd 15fed. Roedd yn awdures o fri ag ysgrifennodd lawer o lyfrau i blant a phobl ifanc ("Castell y Blaidd", "Rhyfel Sam" i enwi dim ond dau) ac i oedolion llyfrau fel "Heldir y Diafol" a "Piers Griffith: Pirate of Penrhyn". Bu hefyd yn awdures ffilmiau dogfen. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i phartner Will, ei phlant Nerys a Dewi ac â'r teulu oll. Bydd colled ar ei hôl am ei chefnogaeth i weithgareddau'r eglwys.

Ysbyty Gwynedd
Cynhaliwyd stondin Nadolig yr eglwys yn Ysbyty Gwynedd ar ddydd Gwener Rhagfyr 15fed pan gwerthwyd nwyddau a

chardiau. Diolch i bawb a fu'n cefnogi'r achlysur.

Difrod i Sant Tegai
Mae'r gwaith o atgyweirio'r to ar ôl Storm Ophelia yn bwrw ymlaen ond pwysleisir bod yr adeilad ar gau nes y bydd y sefyllfa diogelwch yn sicr. Mae croeso i'r gynulleidfia ymuno â gwasanaethau'r Sul mewn unrhyw un o eglwysi Bro Ogwen.

Rhagrybudd Gwasanaethau'r Nadolig Eglwys Sant Tegai
Er ein problemau gyda tho yr eglwys byddem yn dathlu'r Nadolig fel arfer yn Sant Tegai! Os na fydd y gwaith wedi'i gwblhau mewn pryd, bydd y gwasanaethau yn Neuadd Talgai drws nesaf.

Bwriedir cynnal gwasanaeth dwyieithog traddodiadol Naw Llith a Charol ar nos Sul, Rhagfyr 17eg am 5.00 y pnawn. Bydd lluniaeth ysgafn nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl y gwasanaeth. Cynhelir gwasanaeth Noswyl y Nadolig am 11.15 y nos ar Ragfyr 24ain.

Dydd Sul, Rhagfyr 31ain am 9.30y.b. byddem yn ymuno gyda chynulleidfia Santes Fair Tregarth am wasanaeth ar y cyd.

Gwasanaethau mis Ionawr
Pob bore Mercher yn Sant Tegai am 9.15 y.b. Boreol Weddi a'r Offeren yn dilyn am 10.15 y.b. Os ydych yn brin o amser - ymunwch â ni am un ohonynt - mae yna amser rhwng y ddau wasanaeth i ymadael.

Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.

Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

